# Agenda - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 9 Tachwedd 2017

Rhag-gyfarfod Aelodau: 09.00

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Claire Morris**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6355

SeneddIechyd@cynulliad.cymru

## Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.00 - 09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 - Sesiwn dystiolaeth 1 - Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant

(09.30 - 11.30) (Tudalennau 1 - 65)

Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Huw Irranca-Davies AC, Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant

Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru

Alan Brace, Cyfarwyddwr Cyllid

## 3 Papurau i'w nodi

### 3.1 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ynglŷn ag amseroedd aros canser

(Tudalennau 66 - 72)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem nesaf

## 5 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 - Trafod y dystiolaeth

(11.30 - 12.00)

**Cinio (12.00 - 13.00)**

## 6 Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru) - Sesiwn dystiolaeth gyda Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(13.00 - 14.30) (Tudalennau 73 - 93)

Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

Tracey Breheny, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Camddefnyddio Sylweddau, Busnes y Llywodraeth a Chorfforaethol

Bethan Roberts, Yr Adran Gwasanaethau Cyfreithio

Janine Hale, Prif Swyddog Ymchwil (Economeg Iechyd)

Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)

Memorandwm esboniadol

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 8 Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru) – Trafod y dystiolaeth

(14.30 – 14.45)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

**Dyddiad:** **9 Tachwedd 2017**
**Lleoliad:** **Senedd Bae Caerdydd**
**Teitl:** **Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2018-19**

## 1. Diben

Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a'r Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 3 Awst yn eu gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ar eu cynigion ar y Gyllideb Ddrafft ac yn gofyn iddynt ddarparu papur ar y Gyllideb Ddrafft.

## 2. Cyflwyniad

Mae dau gam i broses y Gyllideb Ddrafft. Cyhoeddwyd y gyllideb ddrafft amlinellol (Cam 1) ar 3 Hydref 2017, a'r gyllideb fanwl (Cam 2) ar 24 Hydref. Mae'r gyllideb ddrafft amlinellol yn canolbwyntio ar amlen ariannol Llywodraeth Cymru a phrif ddyraniadau ar lefel y Prif Grwpiau Gwariant (MEG), ac mae'r gyllideb fanwl yn cwmpasu cynlluniau gwariant ar y Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) ar gyfer pob MEG.

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar gynigion cyllideb y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ar gyfer 2018-19 ac mae hefyd yn darparu gwybodaeth am feysydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor.

## 3. Trosolwg o'r Gyllideb

| | **2018-19** |
|---|---|
| **Refeniw** | **£m** |
| Gwaelodlin Diwygiedig DEL 2017-18 | 7,018.570 |
| Dyraniad MEG | 230.000 |
| Gostyngiad Arbedion Cytunedig MEG | (7.292) |
| Arbedion grantiau Penodol Cytunedig | (2.400) |
| Trosglwyddiadau MEG i MEG | (7.670) |
| **DEL Diwygiedig fel ar Gyllideb Ddrafft 2017** | **7,231.208** |
| **Cyfalaf** | |
| Gwaelodlin cyfalaf yn unol â Chyllideb Derfynol 2017-18 | 260.289 |
| Dyraniad MEG | 23.500 |
| Trosglwyddiadau MEG i MEG | 10.985 |
| **DEL Diwygiedig fel ar Gyllideb Ddrafft 2017** | **294.774** |
| **Cyfanswm y MEG HWB&S** | **7,525.982** |

*Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol, sydd y tu hwnt i Derfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru.*

Mae'r tabl canlynol yn dangos y cysoniad rhwng y gyllideb Atodol Gyntaf gyhoeddedig ar gyfer 2017-18 â'r gwaelodlin diwygiedig ar gyfer pob elfen o'r MEG.

| **Refeniw DEL** | £m |
|---|---|
| Cyllideb Atodol Gyntaf Gyhoeddedig 2017-18 | 7,065.650 |
| Trosglwyddiad i'r MEG Llywodraeth Leol | (30.000) |
| Gwrthdroi trosglwyddiad MEG Cynllun Bwrsariaeth y GIG | 0.800 |
| Dileu cyllid anghylchol | (17.880) |
| **Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18** | **7,018.570** |
| **DEL Cyfalaf** | |
| Cyllideb Atodol Gyntaf Gyhoeddedig 2017-18 | 251.971 |
| Addasiad i gyd-fynd â chynlluniau 2018-19 (yn unol â'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2017-18) | 8.318 |
| **Y gwaelodlin diwygiedig fel yng Nghyllideb Derfynol 2017-18** | **260.289** |

O gymharu â gwaelodlinau diwygiedig 2017-18, mae cyfanswm y dyraniad refeniw ar gyfer Iechyd, Llesiant a Chwaraeon wedi cynyddu **£212.638 miliwn** a chynnydd o **£34.485 miliwn** ar gyfer cyfalaf. Yn gryno, mae'r symudiadau fel a ganlyn:

| **Refeniw** | £m |
|---|---|
| Buddsoddiad ychwanegol o gronfeydd wrth gefn yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru i gefnogi'r GIG yng Nghymru | 230.000 |
| Arbedion net wedi'u trosglwyddo i'r cronfeydd wrth gefn | (9.692) |
| Trosglwyddiad i'r MEG Llywodraeth Leol mewn perthynas â'r adolygiad o Grantiau (Grant Byw'n Annibynnol Cymru (£27.000 miliwn) ac Ystadau Diogeledd (£0.39 miliwn)) | (27.391) |
| Trosglwyddiad i MEG Gweinyddu Gwasanaethau Canolog Cymru ar gyfer Grant Affrica | (0.050) |
| Trosglwyddiad o MEG Gweinyddu Gwasanaethau Canolog Cymru ar gyfer addasiad gwaelodlin Buddsoddi i Arbed 2017-18 | 9.049 |
| Trosglwyddiad i MEG Gweinyddu Gwasanaethau Canolog ar gyfer cymeradwyaeth Buddsoddi i Arbed | (0.278) |
| **Buddsoddiad Cytundeb y Gyllideb Ychwanegol** | **11.000** |
| **Cynnydd refeniw net** | **212.638** |
| **Cyfalaf** | |
| Buddsoddiad ychwanegol o gronfeydd wrth gefn | 23.500 |
| Trosglwyddo i MEG Gweinyddu Gwasanaethau Canolog ar gyfer Buddsoddi i Arbed 2018-19 | (0.015) |
| **Buddsoddiad Cytundeb y Gyllideb Ychwanegol** | **11.000** |
| **Cynnydd cyfalaf net** | **34.485** |

Dangosir manylion pob trosglwyddiad yn Atodiad A y papur hwn.

## 4. Yr ymateb i gynigion y Gyllideb

Mae'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Llesiant a Chwaraeon yn cefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer poblogaeth iach ac egnïol. Mae'n cynnwys y cyllid refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer GIG Cymru, yn ogystal â chyllid ar gyfer:

- Iechyd Cyhoeddus Cymru a rhaglenni eraill iechyd y cyhoedd
- addysg a hyfforddiant gweithlu'r GIG
- cyllidebau eraill y GIG a rhaglenni iechyd, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau ac ymchwil a datblygu

- cefnogi gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys cyllid ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru, darperir y brif elfen gofal cymdeithasol drwy'r MEG Llywodraeth Leol
- cefnogi chwaraeon cymunedol ac elitaidd, gan gynnwys cyllid ar gyfer Chwaraeon Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i flaenoriaethu buddsoddiad yn y GIG yng Nghymru. Y newid cyllidebol mwyaf arwyddocaol i'r MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ar gyfer 2018-19 yw'r buddsoddiad ychwanegol o £450 miliwn yn y GIG yng Nghymru yn y ddwy flynedd nesaf. Dangosodd tystiolaeth o adroddiadau diweddar gan y Sefydliad Iechyd ac Ymddiriedolaeth Nuffield y byddai angen i'r gwariant ar iechyd gynyddu'n flynyddol er mwyn gallu darparu ar gyfer poblogaeth sy'n gynyddol oedrannus, ac yn sgil achosion cynyddol o gyflyrau cronig, megis diabetes. Drwy'r buddsoddiad ychwanegol hwn, rydym yn cynllunio ar gyfer cynaliadwyedd y gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y tymor canolig a'r tymor hwy.

Darperir manylion am ddyraniad y cyllid hwn i sefydliadau'r GIG yn nyraniadau refeniw GIG 2018-19, a fydd yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach yn yr hydref.

Rydym wedi adolygu a lleihau'r cynlluniau gwariant ar gyfer rhai rhaglenni iechyd a llesiant canolog, lle y gallwn fod yn sicr y gellir lliniaru effeithiau'r gostyngiadau hyn drwy feysydd cyllid craidd eraill. Byddwn yn parhau i fonitro effaith y newidiadau gwariant hyn er mwyn sicrhau nad ydynt yn ein hatal rhag cyflawni ein nod o sicrhau *Ffyniant i Bawb.*

## 5. Trefniadau cyllido ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol

Er mwyn helpu gyda gwaith craffu'r Pwyllgor ac i ddarparu gwell dealltwriaeth o sut mae'r GIG yn gwario ei ddyraniad cyllid, sydd wedi'i fanylu yn yr adran 'Darparu Gwasanaethau Craidd y GIG', mae'r adran ganlynol yn darparu mwy o wybodaeth am y trefniadau cyllido ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol.

Yn nhablau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL) yn Atodiad A, mae BEL Dyraniadau Craidd y GIG yn dangos cyllideb o £6.5 biliwn ar gyfer 2018-19. Er gwaethaf rhai mân addasiadau, y gyllideb hon yw'r brif gyllideb dyraniad refeniw a gyhoeddir i Fyrddau Iechyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Mae'r dyraniad yn darparu cyllid ar gyfer:

- Dyraniad dewisol refeniw ar gyfer presgripsiynu Gofal Iechyd a Gwasanaethau Ysbyty
- Gwasanaethau Gofal Iechyd a Gwasanaethau Ysbyty sydd wedi'u diogelu a'u clustnodi
- Dyraniad Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol
- Dyraniad Contract Fferylliaeth Gymunedol
- Dyraniad Contract Deintyddol

Cyhoeddwyd dyraniad refeniw Byrddau Iechyd ar gyfer 2017-18 ym mis Rhagfyr 2016, a oedd yn cyflwyno'r dyraniadau rhwng y llifau cyllido amrywiol uchod. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r dyraniad gan y Bwrdd Iechyd ei hun.

**Dyraniadau Refeniw ar gyfer Byrddau Iechyd yn 2017-18**

| Bwrdd Iechyd | Dyraniad Disgresiwn a Phresgripsiynu | Dyraniad wedi'i Neilltuo | Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol | Contract Fferylliaeth | Contract Deintyddol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£miliwn** | £miliwn | **£miliwn** | **£miliwn** | **£miliwn** | **£miliwn** |
| ABM | 743.608 | 172.827 | 75.428 | 29.335 | 27.082 | 1,048.280 |
| AB | 841.766 | 147.338 | 85.870 | 31.453 | 27.107 | 1,133.534 |
| BC | 989.138 | 202.681 | 116.087 | 33.471 | 27.097 | 1,368.474 |
| C a'r Fro | 613.716 | 124.949 | 64.568 | 22.218 | 24.497 | 849.948 |
| CT | 455.740 | 91.352 | 45.617 | 18.501 | 11.733 | 622.943 |
| H Dda | 530.815 | 112.761 | 60.879 | 20.923 | 17.576 | 742.954 |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Powys | 185.316 | 42.103 | 30.659 | 4.753 | 5.577 | 260.408 |
| **Cyfanswm** | **4,361.099** | **894.009** | **479.109** | **160.654** | **140.669** | **6,035.540** |

Nid yw'r ffigurau yn y tabl uchod yn cynnwys y cyllid a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn yn 2017-18 na'r cyllid yr wyf wedi'i ddal yn ôl yn 2017-18 ar sail anghylchol er mwyn gallu rheoli'r diffyg yn y pedwar bwrdd iechyd a'i atal rhag gwaethygu. Nid wyf wedi penderfynu eto mewn manylder pa ddefnydd a wneir o'r cyllid hwn sydd heb ei ddyrannu o 2017-18 i gynorthwyo'r gwaith o ddarparu a gweddnewid gwasanaethau yn 2018-19, ynghyd â'r **£230 miliwn ychwanegol** ar gyfer y GIG a gyhoeddwyd yn y gyllideb Ddrafft ar gyfer 2018-19. Rwy'n cyflwyno manylion pellach am fy nghynlluniau yn ddiweddarach yn y papur hwn.


O fewn y BEL 'Dyraniadau Craidd y GIG', mae rhai elfennau o gyllid sy'n cael eu rhoi i Fyrddau Iechyd yn ystod y flwyddyn, yn seiliedig ar gostau gwirioneddol, neu feini prawf y cytunwyd arnynt a allai amrywio o flwyddyn i flwyddyn, ac felly nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y symiau cyllid cylchol uchod. Mae enghreifftiau o'r eitemau gwariant hyn yn cynnwys:

- Cyllid Camddefnyddio Sylweddau
- Costau Hyfforddeion Deintyddol a Fferylliaeth
- Cronfa Driniaeth

## 6. Gwariant yn ôl Categori Cyllidebau Rhaglenni

Gellir dangos dadansoddiad pellach o wariant hanesyddol yn ôl categori Cyllidebau Rhaglenni. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chynhyrchu bob blwyddyn ond bydd ond ar gael tua 12 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. O ganlyniad, mae'r wybodaeth a ddangosir yn y tabl wedi'i llunio o'r gwariant yn ystod y flwyddyn ariannol 2015-16. Mae'r meysydd gwariant wedi'u dangos yn y graff isod:

DRAFT




Mae'r categorïau gwariant uchod yn seilieidg ar Ddosbarthiad Rhyngwladol Clefydau Sefydliad Iechyd y Byd

Mae'r siart uchod yn dangos y prif feysydd gwariant yn y GIG yng Nghymru.  Mae'r wybodaeth wedi'i chasglu o ffurflenni cyllidebu rhaglenni ar gyfer 2015-16 ac mae'n cwmpasu mwy na 93% o'r gwariant yn y flwyddyn honno (tua £6.1 biliwn).  D.S. Nid yw'r wybodaeth am gyllidebau rhaglenni ar gael ar gyfer 2016-17 ar hyn o bryd, a disgwylir iddi gael ei chyhoeddi yn gynnar yn 2018.

### 7. Gwariant Ataliol


Ein nod yw cymryd camau breision i newid ein dull gweithredu o drin clefydau i'w hatal.  I gynorthwyo gyda hyn, rydym wedi cynnal adolygiad o'n cynlluniau gwario er mwyn asesu'r lefel bresennol o wariant ar atal.  Nid yw diffiniadau cyson o atal yn cael eu defnyddio gan y llywodraeth, ond mae'r Tasglu Gweithredu Cynnar, a gynhyrchodd yr adroddiad 'Towards Effective Prevention' wedi adeiladu

ar y diffiniadau arfaethedig a gyflwynwyd yn adolygiad tirlun gweithredu cynnar Swyddfa Archwilio Cymru, a'u datblygu yn drafodaethau gydag ymarferwyr. Mae gwaith ar y gweill i benderfynu ar set o ddiffiniadau o atal ar draws Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar y gwaith hwn. Rydym wedi dosbarthu gwariant gan gynnwys diffiniadau'r Tasglu Gweithredu Cynnar.

Wrth edrych ar ein gwariant atal ar gyfer cyllidebau Canolog Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, rydym wedi eu diffinio fel a ganlyn:

| Diffiniad | Esboniad o'r Diffiniad |
|---|---|
| **Lefel Atal Sylfaenol** | Atal problemau, neu leihau'r risg y bydd problemau'n codi fel arfer drwy bolisïau cyffredinol gan gynnwys hybu iechyd neu raglen frechu. |
| **Lefel Atal Eilaidd** | Targedu unigolion neu grwpiau sy'n wynebu risg uchel neu sy'n dangos arwyddion cynnar o broblem benodol er mwyn ei hatal rhag digwydd. Er enghraifft rhaglenni sgrinio. |
| **Lefel Atal Trydyddol** | Ymyrryd unwaith y bydd problem, er mwyn ei hatal rhag gwaethygu, ac unioni'r sefyllfa. Er enghraifft, yr ymgyrch "Dewis Doeth" neu gyllid ar gyfer therapïau seicolegol. |
| **Gwariant Acíwt** | Gwariant sy'n gweithredu i reoli effaith sefyllfa negyddol iawn ond nad yw'n gwneud llawer, os o gwbl, i atal canlyniadau negyddol. |

Rydym wedi adolygu ein cyllidebau a gedwir yn ganolog yn erbyn y categorïau uchod a dangosir y rhaniad o ran canran yn y tabl isod:




[Percentage split] Rhaniad canran y gwariant ar atal yng nghyllidebau canolog Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
[Primary] Sylfaenol [Secondary] Eilaidd [Tertiary] Trydyddol [Acute] Acíwt

Nid yw Llywodraeth Cymru yn pennu gofynion manwl ar gyfer sefydliadau'r GIG ar sut y dylent ddefnyddio eu dyraniad refeniw yn ôl disgresiwn i ddiwallu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, a chyfran y cyllid y dylent ei gwario ar weithgareddau ataliol. Felly o ran asesu lefel gwariant y GIG ar waith atal, bu'n rhaid inni ddefnyddio dull arall. Yng nghyhoeddiad Cyfrifon Iechyd y DU 2015, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Ebrill 2017, mae'r dadansoddiad o wariant

yn ôl swyddogaeth gofal iechyd wedi nodi, ar lefel y DU, bod cyfanswm y gwariant ar atal gyfwerth â £9.6 biliwn o gyfanswm y gwariant o £185 biliwn. Ar gyfer gofal iechyd sy'n cael ei ariannu gan y Llywodraeth, mae'r gwariant ar waith atal gyfwerth â £7.4 biliwn, neu 5.05% o gyfanswm gwariant gofal iechyd y Llywodraeth, o £147.1 biliwn.

Cyfrifon Iechyd y DU 2015 yw'r ail fersiwn o'r cyhoeddiad newydd a gynhyrchwyd yn unol â Chyfrifon System Iechyd 2011 (SHA 2011), sy'n darparu diffiniadau rhyngwladol safonol ar gyfanswm y gwariant presennol ar ofal iechyd a'r dadansoddiad o'r gwariant hwn yn ôl cynllun ariannol, swyddogaeth a sefydliadau darparu. Mae'r diffiniad o ofal iechyd a ddefnyddir mewn cyfrifon iechyd ychydig yn fwy eang na'r hyn a gydnabyddir fel arfer, ac mae'n cynnwys nifer o wasanaethau sydd fel arfer yn cael eu hystyried yn ofal cymdeithasol yn y DU.

Mae'r Grŵp Llywio Cyfrifon Iechyd sy'n cael eu harwain gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ystyried a fyddai'n bosibl i gyhoeddiadau blynyddol gynnwys dadansoddiad o wariant y DU yn ôl gwledydd unigol yn y dyfodol. Ar hyn o bryd nid oes penderfyniad wedi'i wneud ar y datblygiad hwn, fodd bynnag, cytunwyd gyda'r grŵp llywio (sy'n cynnwys y gweinyddiaethau datganoledig) y byddai'n bosibl drwy hyn i nodi gwariant ar waith atal yn ôl gwledydd unigol. Disgwylir i Gyfrifon Iechyd nesaf y DU, Cyfrifon Iechyd 2016 y DU, gael eu cyhoeddi ddechrau 2018. Byddwn yn parhau gyda'r gwaith i wella ein dealltwriaeth o wariant ar weithgareddau ataliol.

Mae rhai o'r enghreifftiau penodol lle rydym yn darparu cyllid ataliol yn cynnwys:

- Cyllid ar gyfer astudiaeth tair blynedd o argaeledd Proffylacis Cyn-amlygiad, er mwyn lleihau'r risg o haint HIV1 sydd wedi'i gaffael yn rhywiol ymysg oedolion â risg uchel fel rhan o wasanaeth atal HIV ehangach.
- Buddsoddi i atal clefydau y gellir eu hosgoi drwy ehangu'r rhaglen brechu rhag y ffliw i blant i gynnwys un flwyddyn ysgol ychwanegol yn 2017-18, ac yna cyflymu'r gwaith o'i chyflwyno i bob plentyn o oedran ysgol gynradd yn 2018-19. Disgwylir i hyn leihau effaith y ffliwm ar iechyd y cyhoedd yn sylweddol drwy atal nifer fawr o achosion o'r clefyd ymysg plant wedi'u brechu yn ogystal â babanod heb eu brechu a phobl hŷn yn y grwpiau risg clinigol drwy leihau cylchrediad a throsglwyddiad y ffliw.
- Mae'r adrannau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg yn buddsoddi mewn menter drawsbynciol arloesol i dreialu'r mewngymorth iechyd meddwl sy'n cael ei ddarparu i blant mewn lleoliadau ysgol. Mae £1.4 miliwn yn cael ei fuddsoddi ar y cyd mewn tri chynllun peilot a gynhelir o 2017-18 i 2019-20; un ar gyfer Gogledd-ddwyrain Cymru, un rhwng Gogledd Gwent a De Powys ac un yng Ngorllewin Cymru. Bydd y cynlluniau peilot hyn yn profi dulliau nodi ac ymyrraeth gynnar i blant â phroblemau emosiynol ac iechyd meddwl. Bydd cyllid hefyd ar gael i gefnogi cydlynydd cenedlaethol i gynorthwyo'r cynlluniau peilot. Cyfraniad y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2018-19 fydd £0.229 miliwn.
- Buddsoddi mewn atal canser. Dechreuodd y rhaglen imiwneiddio HPV yn 2008. Mae tystiolaeth eisoes o Awstralia, Denmarc, yr Alban a Lloegr bod y brechlyn yn gwneud gwahaniaeth. Gwelwyd gostyngiad mawr yng nghyfraddau'r heintiau mewn perthynas â dau o'r prif fathau o HPV sy'n achosi canser ymysg menywod a dynion. Yn y pen draw, disgwylir i'r rhaglen atal niferoedd sylweddol o farwolaethau o ganser ceg y groth bob blwyddyn. Gan y gall gymryd blynyddoedd lawer i'r canser ddatblygu ar ôl cael yr haint yna bydd budd cyffredinol y rhaglen yn cymryd peth amser i'w werthuso.
- Buddsoddi mewn genomeg ar gyfer meddyginiaeth fanwl. Mae'r strategaeth yn disgrifio ein bwriad i ddefnyddio'r technolegau genomeg newydd i wella iechyd a ffyniant pobl Cymru. Drwy'r strategaeth hon, rydym eisiau sicrhau bod pobl ar hyd a lled Cymru yn gallu cael mynediad i ddiagnosis mwy cyflym a chywir a gwybodaeth well i gefnogi penderfyniadau a wneir ar driniaethau. Rydym hefyd yn awyddus i ddefnyddio'r technegau diweddaraf ar gyfer gallu rhagweld clefydau yn well a meithrin gwell dealltwriaeth o achosion o glefydau.

## 8. Cyllid cyfalaf

Rydym yn parhau i flaenoriaethu buddsoddiadau yn seilwaith y GIG, ac mae gennym raglen uchelgeisiol ar gyfer y tair blynedd nesaf lle y bydd cyfleusterau newydd yn cael eu cyflwyno ac ailddatblygiadau mawr i rai o'n hasedau mwyaf strategol.



DRAFT

Dechreuodd y gwaith ar Ysbyty Athrofaol y Grange yn ystod Gorffennaf 2017 ac mae hyn yn elfen hollbwysig o Raglen Gyfalaf GIG Cymru ar gyfer y dyfodol. Disgwylir i'r ysbyty modern 470 gwely agor yn 2021. Mae gwaith ailddatblygu a moderneiddio sylweddol yn cael ei wneud hefyd yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Glan Clwyd, ac yn 2018-19 bydd gwaith yn parhau i ddatblygu Canolfan Ganser newydd Felindre.

Yn ogystal â chynlluniau yn y sector acíwt, mae'r gyllideb hon yn darparu £11 miliwn y flwyddyn i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Canolfan Gofal Integredig Aberteifi fel rhan o'r trefniant ynglŷn â'r gyllideb gyda Phlaid Cymru. Yn amodol ar gymeradwyaeth yr Achos Busnes Llawn yn ddiweddarach yr hydref hwn, disgwylir i waith ddechrau ym mis Ebrill 2018, gyda chyfnod adeiladu arfaethedig o 17 mis.

Y flwyddyn nesaf bydd buddsoddiad o £10 miliwn hefyd i ddatblygu nifer o brosiectau gofal sylfaenol a chymunedol, fel rhan o gyflawni ymrwymiad Symud Cymru Ymlaen, sy'n cael ei ailadrodd yn Ffyniant i Bawb, er mwyn buddsoddi yn y genhedlaeth nesaf o ganolfannau iechyd a gofal integredig. Bydd y cynlluniau hyn yn gweld 19 o brosiectau'n cael eu cyflawni ar hyd a lled Cymru erbyn 2021. Rwyf eisoes wedi cyhoeddi gwerth £40.5 miliwn o gyllid cyfalaf er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn. Fel rhan o'r gyllideb hon, rwy'n adeiladu ar y dyraniad cyllid hwn a gallaf gadarnhau yn awr gyfanswm o £68 miliwn o gyfalaf, i'w ddefnyddio yn y tair blynedd nesaf, i gyflawni'r cynlluniau.

Mae'r gyllideb hon hefyd yn darparu £3.5 miliwn yn 2018-19 i gefnogi'r gwaith o gyflawni Rhaglen Cyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys (ESMCP). Bydd hyn yn darparu system gyfathrebu'r genhedlaeth nesaf ar gyfer y tri gwasanaeth brys (yr heddlu, tân ac achub ac ambiwlans) a defnyddwyr diogelwch y cyhoedd eraill yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Cafodd ESMCP ei sefydlu gan y Swyddfa Gartref i ddarparu gwasanaeth cyfathrebu data llais a band eang critigol ac integredig ar gyfer y Gwasanaethau Brys, sy'n cyflawni gofynion diogelwch y cyhoedd o ran cwmpas, ymarferoldeb, argaeledd a chraffu. Defnyddir y cyllid sydd wedi'i glustnodi gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fel rhan o'i waith paratoi a chyflwyno.

**9. Meysydd Penodol**

**Sylwadau ar y Camau Gweithredu a manylion dyraniadau'r Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)**

Roedd y gyllideb fanwl a gyhoeddwyd ar 24 Hydref yn cyflwyno ein cynlluniau gwario ar gyfer y MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon yn ôl dyraniadau'r Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL). Nodir dadansoddiad ac esboniad o'r newidiadau i'r gyllideb ers Cyllideb Atodol Mehefin 2017 yn Atodiad A.

**Iechyd Meddwl**

**Y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl:** Rydym yn parhau i wario mwy ar wasanaethau iechyd meddwl nag ar unrhyw ran arall o'r GIG yng Nghymru. Y gyllideb sydd wedi'i chlustnodi ar gyfer iechyd meddwl yw £629 miliwn ar gyfer 2017-18. Yn unol â Chytundeb y Gyllideb gyda Phlaid Cymru, byddwn yn cynyddu'r dyraniad sydd wedi'i glustnodi ar gyfer iechyd meddwl £20 miliwn arall yn 2018-19 a 2019-20, i bron £650 miliwn. Mae'r dyraniad sydd wedi'i glustnodi ar gyfer iechyd meddwl yn creu swm amddiffynnol, ac ni ddylai'r gwariant ar wasanaethau craidd ostwng islaw hynny.

***Cytundeb y Gyllideb: Cyllid cylchol ar gyfer Anhwylderau Bwyta, Gwasanaethau Hunaniaeth o ran Rhywedd a Gwasanaethau Iechyd Meddwl***

Mae cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 yn sicrhau bod yr £1 filiwn o gyllid ychwanegol ar gyfer 2017-18 i wella gwasanaethau anhwylderau bwyta a hunaniaeth o ran rhywedd yn cael ei ddarparu ar sail gylchol.

**<u>Anhwylderau Bwyta:</u>** Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn adeiladu ar fuddsoddiad Llywodraeth Cymru o £1.25 miliwn y flwyddyn i wella'r ddarpariaeth i blant ac oedolion. Mae'r £0.500 miliwn yn cael ei dargedu at wasanaethau i bobl ifanc hŷn, wrth iddynt bontio rhwng y gwasanaethau i blant ac oedolion. Yn benodol, caiff y cyllid ei ddefnyddio i feithrin perthnasoedd gwaith agos rhwng timau anhwylderau bwyta presennol CAMHS a thimau anhwylderau bwyta lefel 3 oedolion, gan gydweithio er budd gorau'r claf mewn model gofal dan arweiniad clinigol, yn hytrach na model sy'n cael ei arwain gan oedran. Mae hyn yn cynnwys gwella hyfforddiant a darparu sesiynau ychwanegol ar gyfer staff presennol, a recriwtio staff arbenigol newydd.

DRAFT

**Gwasanaethau Hunaniaeth o ran Rhywedd:** Mae Grŵp Partneriaeth Hunaniaeth o ran Rhywedd Cymru Gyfan (AWGIPG) yn arwain y gwaith o ddatblygu llwybr triniaeth newydd i Gymru. Mae hyn yn cynnwys datblygu gwasanaeth amlddisgyblaeth newydd, a elwir yn Dîm Rhywedd Cymru. Bydd y Tîm yn darparu cymorth i rwydwaith o feddygon teulu ar hyd a lled Cymru gyda diddordeb arbenigol ym mhob maes o ofal rhywedd, gan gynnwys therapi amnewid hormonau, a bydd yn darparu atgyfeiriadau uniongyrchol gan feddygon teulu. Mae'r Tîm yn bwriadu derbyn atgyfeiriadau newydd ac adfer unigolion priodol sydd ar restrau aros ar gyfer triniaeth o ddiwedd Mawrth y flwyddyn nesaf. Bydd y set newydd hon o drefniadau yn arwain at bellteroedd teithio byrrach er mwyn cael mynediad i wasanaethau, amseroedd aros byrrach a phrofiad gwell i ddefnyddwyr.

**Cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl:** Mae cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 yn cynnwys £20 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith parhaus o gyflawni'r blaenoriaethau yn Law yn Llaw at Iechyd Meddwl a Ffyniant i Bawb.

**Dyraniadau ar gyfer cyflawni'r strategaeth a'r cynllun cyflawni iechyd meddwl**

Y gwariant ar iechyd meddwl yw'r maes unigol mwyaf yn y gyllideb a gofynnir i fyrddau iechyd roi ystyriaeth gymesur i hyn yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. Mae cynllun cyflawni 2016-19, a gyhoeddwyd i ategu'r strategaeth *"Law yn Llaw at Iechyd Meddwl"* yn cyflwyno blaenoriaethau clir a disgwylir i'r Cynlluniau Tymor Canolig Integredig hefyd arddangos bod y sefydliad yn cyflawni'r blaenoriaethau hyn. Dylai'r Cynlluniau ddangos sut mae'r sefydliad yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol o dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a sut mae'r sefydliad yn darparu mynediad a chanlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaeth o'r buddsoddiad arwyddocaol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru wrth ddarparu meysydd darpariaeth penodol. Yn fwy cyffredinol, dylai'r Cynlluniau Tymor Canolig Integredig gyflwyno'r rhaglenni newid gwasanaethau sefydliadol yn glir i sicrhau bod gofal o ansawdd uchel, sy'n gynaliadwy, hygyrch ac amserol ar gael sydd ag amserlenni a risgiau cysylltiedig.

**Y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl sy'n cael eu darparu ar yr ystâd carchardai**
Nid yw cyllid iechyd meddwl ar gyfer carcharorion yn cael ei nodi ar wahân yn nyraniad cyllid y GIG. Byrddau Iechyd sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau ysbytai ac iechyd cymunedol ar gyfer eu poblogaeth a bydd hyn yn cynnwys y boblogaeth carchardai yn eu hardal.

**Patrymau galw a'r gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl yn ystod y 5 mlynedd diwethaf**
Mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael o ffurflenni cyllideb Rhaglenni'r GIG yn berthnasol i'r cyfnod 2011-12 i 2015-16. Mae hyn yn dangos bod y gwariant ar Iechyd Meddwl wedi cynyddu £40 miliwn o £642 miliwn yn 2011-12 i £683 miliwn yn 2015-16.
Ers 2015-16, mae £25 miliwn ychwanegol wedi'i ddyrannu'n rheolaidd i Fyrddau Iechyd er mwyn targedu'r ddarpariaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac fel rhan o gytundeb y gyllideb ar gyfer 2018-19, ychwanegir £20 miliwn at y dyraniad Iechyd Meddwl. Mae hyn yn gyfanswm o £45 miliwn o gynnydd yn y gyllideb yn y cyfnod tair blynedd hwnnw.

**Manylion gweithredu'r cyllid sydd wedi'i glustnodi ar gyfer y gyllideb iechyd meddwl, gan gynnwys ei lefel, diffinio'r hyn y mae'n ei gynnwys, y graddau y mae wedi pennu'r gwariant ar iechyd meddwl; a diben a gwerth y cyllid wedi'i glustnodi a'r cynlluniau ar gyfer ei ddefnyddio yn y dyfodol.**

Mae cyllid iechyd meddwl wedi'i glustnodi ers 2008. Bwriad clustnodi'r gyllideb hon yw diogelu a gwella gwasanaethau craidd ac mae hefyd yn cynnwys gwasanaethau arbenigol a gwariant ar ofal sylfaenol. Mae'r gyllideb sydd wedi'i chlustnodi yn darparu trothwy na ddylai'r gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl fynd yn is nag ef ac mae'n rhaid ail-fuddsoddi unrhyw arbedion yn y gwasanaethau iechyd meddwl.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r cyllid sydd wedi'i glustnodi ar gyfer iechyd meddwl yn y blynyddoedd diwethaf, fel cydnabyddiaeth o'r meysydd sydd wedi profi cynnydd yn y galw am wasanaethau. Mae hyn yn cynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau CAMHS, iechyd meddwl pobl hŷn, gwasanaethau amenedigol cymunedol a therapïau seicolegol. Y byrddau iechyd sy'n gyfrifol am ddangos dealltwriaeth o anghenion iechyd meddwl a llesiant meddwl eu poblogaeth



DRAFT

eu hunain ar hyd y cwrs bywyd ac fel rhan o'r gwaith hwn maent yn cynnwys dadansoddiad o gapasiti a galw sydd hefyd yn dangos sut mae byrddau iechyd yn ymdrin â meysydd i'w gwella. Bydd hyn yn cael ei fonitro drwy'r broses Cynllun Tymor Canolig Integredig.

**Newidiadau eraill i Gytundeb y Gyllideb:**

**Cyllid rheolaidd ar gyfer Gofal Diwedd Oes:** Bydd cyllid ychwanegol o £1 filiwn yn galluogi'r Bwrdd Gofal Diwedd Oes i barhau i ddatblygu ei flaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu capasiti pellach yn y ddarpariaeth Hosbis yn y Cartref, grymuso cleifion i ddatblygu cynlluniau gofal, cynorthwyo pobl i aros yn eu man preswylio, gwella gofal ar ôl profedigaeth a bydd hefyd yn galluogi defnydd gwell o dechnoleg ac ymchwil digidol.
**Cyllid ar gyfer Cynllun Peilot Buurtzorg Cymru:** Bydd y cyllid gwerth £4 miliwn hwn yn cael ei ddefnyddio i gyflwyno elfen o ddull Buurtzog yng Nghymru, yn unol ag egwyddorion Staff nyrsio ar gyfer nyrsys cymunedol. Bydd hyn yn canolbwyntio ar hyfforddi 80 o nyrsys ardal newydd.

**Cyllid ar gyfer Gweddnewid y GIG**

Mae *Ffyniant i Bawb* yn cyflwyno ein huchelgais i gynnal gwasanaethau iechyd o ansawdd uchel, cefnogi a hybu iechyd a llesiant da i unigolion, teuluoedd a chymunedau a chymryd camau i newid ein ffocws o drin i atal. Rwy'n benderfynol o ddefnyddio'r buddsoddiad ychwanegol hwn yn GIG Cymru i gefnogi'r uchelgais hon ac ysgogi newidiadau i'n gwasanaethau iechyd a gofal.

Mae'r dystiolaeth yn adroddiadau Ymddiriedolaeth Nuffield a'r Sefydliad Iechyd yn cyfeirio at yr angen am fuddsoddiad blynyddol parhaus yn y GIG er mwyn ymateb i'r cynnydd mewn costau a'r galw am wasanaethau. Yn 2017-18 fe wnes i gynyddu dyraniadau'r GIG a llifau cyllid eraill y GIG gyda chynnydd cyffredinol o 2%, sy'n gyfwerth â thua £110 miliwn yn gyffredinol, er mwyn ymateb i gynnydd mewn costau. Byddaf yn cynllunio i wneud cynnydd tebyg i'r cyllid yn 2018-19 o'r £230 miliwn o gyllid sydd wedi'i ddyrannu yn y Gyllideb Ddrafft hon.

Fy uchelgais yw defnyddio balans y buddsoddiad ychwanegol, ar gyfer dyrannu cyllid ar gyfer cynnydd mewn costau, er mwyn dangos ein hymrwymiad i weddnewid gwasanaethau a chynnal a gwella perfformiad. Rwyf hefyd yn benderfynol o gymell sefydliadau i gyflawni a chynnal y statws o gael cynllun tymor canolig cymeradwy, drwy roi mwy o hyblygrwydd i'r sefydliadau hyn o ran sut y maent yn defnyddio'r cyllid ychwanegol i ysgogi newidiadau ar lefel leol.

Bydd y graddau y gallwn gyflawni'r uchelgais hon yn dibynnu'n fawr ar ein cynnydd wrth fynd i'r afael â diffygion gweithredol yn y byrddau iechyd a'u hatal rhag gwaethygu. Yn 2017-18, rwyf wedi gorfod atal cyfran sylweddol o'r £240 miliwn o fuddsoddiad ychwanegol ar sail anghylchol er mwyn gwrthbwyso'r diffygion yn y sefydliadau hyn. Mae'r ymyrraeth sydd wedi'i thargedu yn y sefydliadau gan fy swyddogion yn cael effaith o ran sefydlogi'r sefyllfa, ond bydd angen sicrwydd arnaf bod gwelliannau pellach yn cael eu cyflawni a'u cynnal yn ystod ail hanner 2017-18 cyn imi wneud unrhyw benderfyniadau i ymrwymo cyllid gweddnewid ychwanegol ar sail reolaidd yn 2018-19 a thu hwnt.

Wrth ddefnyddio cyllid er mwyn ysgogi newidiadau, ni ddylem ganolbwyntio'n unig ar fuddsoddiad newydd, ond hefyd sicrhau ein bod yn gweithredu i ailgyfeirio gwariant presennol tuag at fodelau gofal newydd.

Mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos mai gofal sylfaenol yw elfen graidd system iechyd gynaliadwy. Mae ein cynllun gofal sylfaenol cenedlaethol yn disgrifio sut y byddwn yn cyflawni system iechyd gynaliadwy ac effeithiol drwy fodel iechyd a llesiant mwy cymdeithasol. Mae hyn yn ymateb i anghenion pobl drwy ddenu'r holl adnoddau sydd ar gael o ran cyllid, y gweithlu ac adnoddau eraill, nid dim ond adnoddau GIG Cymru, gan wneud defnydd doeth ac arloesol ohonynt a helpu pobl i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Ochr yn ochr â'r buddsoddiad ychwanegol rydym yn ei wneud yn 2018-19, mae'r gyllideb hon yn cefnogi'r newid a'r gwelliant hwn drwy gynnal nifer o ddyraniadau cyllid sydd eisoes wedi'u targedu, gan gynnwys cynnal y gronfa gofal sylfaenol, y gronfa gofal integredig a chyllid ar gyfer cynlluniau cyflawni cenedlaethol. Dyrannwyd £10 miliwn o'r gronfa gofal sylfaenol ar gyfer y clystyrau gofal

DRAFT

sylfaenol er mwyn penderfynu sut i'w fuddsoddi ac mae'n llwyddo manteision cydweithio ar lefel leol iawn er mwyn ysgogi newidiadau.

Mae ein Cyllideb yn cynnwys cyllid sydd wedi'i glustnodi ar gyfer byrddau iechyd ar gyfer y contract gwasanaeth gyda meddygon teulu, fferyllwyr cymunedol, deintyddion ac optometryddion. Rydym yn parhau i wneud gwaith ymchwil gyda chyrff proffesiynol perthnasol i weld sut y gall y fframweithiau contractau a drafodwyd yn genedlaethol alluogi ein nod o weddnewid gofal a chymorth a diwallu anghenion pobl mor agos â phosibl i'w cartrefi.

Rydym hefyd yn bwriadu cynyddu gwasanaethau triniaeth rheng flaen ar gamddefnyddio sylweddau drwy gynyddu'r cyllid o £0.920 miliwn sydd wedi'i glustnodi yn 2018-19, i fuddsoddiad blynyddol o fwy na £18 miliwn.

**Gwasanaethau Cymdeithasol**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r tensiwn posibl rhwng pwysau costau dyddiol a gwariant ataliol ar y gwasanaethau cymdeithasol. Bwriad ein diwygiadau mawr i ddeddfwriaeth a gwasanaethau yw galluogi awdurdodau lleol a'r sector yn ehangach i ymateb i'r ddemograffeg ac i'r heriau eraill drwy fabwysiadu dull tymor hwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar a chyflawni canlyniadau llesiant personol wrth wella llesiant pobl yng Nghymru.

Rydym wedi targedu cyllid o £1.3 miliwn yn y blynyddoedd 2013-14 a 2014-15 gan gynyddu i £3.0 miliwn yn 2015-16 a 2016-17, drwy Grant Cyflawni'r Agenda Weddnewid 2013-14 i 2016-17 (sydd wedi'i drosglwyddo yn awr i'r grant cymorth refeniw o 2017-18), gan gydnabod costau gweddnewid cynllunio ar gyfer ac yna gweithredu'r newidiadau sydd eu hangen i lywio gwelliannau wrth ddarparu gofal cymdeithasol yn systematig yng Nghymru o dan nawdd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r trefniadau gwerthuso ar gyfer y Ddeddf yn cael eu datblygu ar y cyd gyda rhanddeiliaid yn awr. Fodd bynnag, y dangosyddion presennol yw, er bod y gwaith cyflwyno yn datblygu ar gyfraddau gwahanol mewn ardaloedd gwahanol, mae'r defnydd o gyllid grant ar gyfer datblygu blaenoriaethau cenedlaethol wedi'i groesawu fel dull o gyflymu'r broses weithredu ac annog arfer ehangach o fabwysiadu arfer gorau ar hyd a lled Cymru.

Rydym hefyd wedi sefydlu, yn ychwanegol at hyn, £55 miliwn o gyllid rheolaidd ychwanegol a ddyrannwyd i lywodraeth leol o 2017-18. Wrth gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau rheng flaen, mynd i'r afael ag effaith y cyflog byw cenedlaethol a thargedu gweithredoedd ar y tri maes blaenoriaeth; y gweithlu gofal cymdeithasol, plant sy'n derbyn gofal a gofalwyr, bwriedir i'r cyllid hwn alluogi llywodraeth leol a'i phartneriaid ddatblygu eu hagendâu atal ac ymyrraeth gynnar.

**Gwaith partneriaeth a byrddau partneriaeth rhanbarthol**

Ar 10 Hydref cyflwynodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad llafar i'r Cynulliad, yn pwysleisio pwysigrwydd integreiddio a gweithio mewn partneriaeth er budd y gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn datgan mai'r ffordd orau o godi safonau yw drwy bartneriaid yn cydweithio. Mae'r Ddeddf yn galluogi byrddau partneriaeth rhanbarthol i ysgogi integreiddiad effeithiol iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r byrddau hyn wedi'u sefydlu'n gadarn ac maent yn gwella effeithiolrwydd y dulliau cyflawni gwasanaethau.

Sefydlwyd saith bwrdd, ar ôl-troed ardal y byrddau iechyd, sy'n uno'r gwasanaethau iechyd, y gwasanaethau cymdeithasol, y trydydd sector a phartneriaid eraill. Eu diben yw gwella canlyniadau llesiant a gwneud y defnydd gorau o adnoddau er mwyn cefnogi cynaliadwyedd.

Mae'n ofynnol i fyrddau partneriaeth rhanbarthol sefydlu cyllidebau cyfun, o Ebrill 2018, ar gyfer darparu llety i oedolion mewn cartrefi gofal. Bydd y cyllidebau cyfun hyn yn cefnogi prosesau comisiynu integredig, a fydd yn galluogi awdurdodau lleol a byrddau iechyd i ganolbwyntio ar ansawdd gwell yn ogystal â sicrhau gwerth gwell am arian.

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant hefyd yn mynnu bod byrddau partneriaeth rhanbarthol yn defnyddio dull integredig wrth gynllunio a chyflawni gwasanaethau. Ym mis Ebrill,

DRAFT

cyhoeddodd y byrddau rhanbarthol asesiadau poblogaeth, sy'n ofyniad yn Neddf 2014. Mae'r rhain yn darparu tystiolaeth glir a phenodol o'r ystod lawn o anghenion gofal a chymorth. Mae byrddau rhanbarthol yn cynhyrchu cynlluniau ardal yn awr mewn ymateb i'r asesiadau hyn erbyn Ebrill 2018 a fydd yn pennu eu hagenda ar gyfer cyflawni gwasanaethau mewn dull integredig.

**Y Gronfa Gofal Integredig (ICF)**

Sefydlwyd y Gronfa Gofal ***Integredig*** sydd wedi'i hailfrandio yn 2014-15 i gynorthwyo pobl hŷn i gynnal eu hannibyniaeth, osgoi cael eu derbyn i'r ysbyty ac atal oedi cyn eu rhyddhau o'r ysbyty. Mae hefyd yn ceisio ysgogi gwaith partneriaeth a chyflawni gwasanaethau integredig ar draws y meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, tai a'r trydydd sector. Cafodd y gronfa ei ehangu yn 2016-17 i gefnogi datblygiad gwasanaethau gofal a chymorth integredig ar gyfer grwpiau eraill o bobl.

Fel un o ddulliau cyflawni allweddol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), o 2017-18, mae amcanion y Gronfa Gofal Integredig wedi'u cysylltu i feysydd blaenoriaeth integreiddio'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol:

- Pobl hŷn gydag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia;
- Pobl ag anableddau dysgu;
- Plant gydag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch;
- (am y tro cyntaf) Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc.

Mae gan y byrddau partneriaeth rhanbarthol swyddogaeth oruchwylio ac mae hyn yn sicrhau'r defnydd effeithiol a chyflawniad y Gronfa Gofal Integredig.

Gyda'r £130 miliwn o gyllid a ddarparwyd drwy'r Gronfa hyd yma a'r £60 miliwn yn 2017-18, mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi mynediad gwell i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn i fwy o bobl eiddil ac oedrannus dderbyn gofal yn neu'n agos i'w cartref.

Mae cyllid y Gronfa Gofal Integredig yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu ystod eang o fodelau arloesol o weithio integredig. Mae'r rhain wedi creu mwy o gapasiti yn y system ofal yn ogystal â gwella cysondeb wrth ddarparu gwasanaethau mewn rhanbarthau.

Mae'r dystiolaeth sy'n dod i law yn dangos bod cyllid yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau llawer o bobl, yn ogystal â lleihau'r pwysau ar wasanaethau hollbwysig y GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol. Cyflawnwyd hyn drwy ddatblygu diwylliant o gydweithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng y gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a thai, ochr yn ochr â phartneriaid o'r trydydd sector a'r sector annibynnol.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i gadw'r gronfa bwysig hon.

**Unrhyw gyllideb sydd wedi'i dyrannu ar gyfer technoleg a seilwaith er mwyn cefnogi ansawdd ac effeithlonrwydd**

Mae buddsoddi mewn TGCh a thechnolegau digidol yn cefnogi gweddnewid y gwasanaeth yn ehangach, ac yn galluogi defnydd mwy effeithiol o adnoddau ar draws y gwasanaeth; a grymuso cleifion a gweithwyr proffesiynol drwy ddarparu gwybodaeth unrhyw le unrhyw amser.

Drwy ein buddsoddiad gwerth £55 miliwn yng Ngwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, mae gennym seilwaith cenedlaethol sefydledig, lle mae byrddau iechyd yn defnyddio systemau clinigol cyffredin megis Cynllun Gweinyddu Cleifion Cymru a Phorth Clinigol Cymru. Mae buddsoddiad wedi gwella'r seilwaith TG, mae hen offer wedi'u hadnewyddu ac mae systemau wedi'u hatgyfnerthu rhag ymosodiadau seibr.

Porth Clinigol Cymru yw'r prif bwynt mynediad at wybodaeth i glinigwyr ysbytai. Mae'n crynhoi'r wybodaeth allweddol o'r systemau niferus sy'n cael eu defnyddio gan ysbytai, ac yn galluogi clinigwr i edrych ar gofnod claf mewn un lle a defnyddio system gyffredin i gyflawni tasgau amrywiol e.e. gwneud cais am brofion, adolygu canlyniadau neu greu llythyr cyngor wrth ryddhau cleifion.



DRAFT

Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys Fy Iechyd Ar-lein lle gall meddygon teulu gynnig ceisiadau i drefnu apwyntiadau a phresgripsiynau amlroddadwy ar-lein.

Mae cofnod Meddygon Teulu Cymru ar gael i feddygon teulu mewn lleoliadau y tu allan i oriau yn ogystal â chlinigwyr a fferyllwyr mewn lleoliadau gofal eilaidd. Defnyddir Dewis Fferyllfa gan 51% o fferyllwyr cymunedol. Mae'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r gwasanaethau mân anhwylderau ac adolygu meddyginiaeth wrth ryddhau cleifion. Gall fferyllwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth Dewis Fferyllfa edrych ar gofnod meddygon teulu cleifion a chyflenwi meddyginiaethau sy'n cael eu rhagnodi i gleifion mewn argyfwng.

Mae System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Mae'n galluogi i staff sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ddefnyddio un system a chofnod electronig o ofal a rennir.

Bydd cyllid Llywodraeth Cymru sydd wedi'i neilltuo ar gyfer arloesedd drwy'r Gronfa Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg yn lleihau o £4 miliwn yn 2018-19. Cafodd y Rhaglen ei datblygu a'i chyflwyno gan Lywodraeth Cymru fel grant cystadleuol, gyda chyllid yn cael ei ddyrannu ar gyfer prosiectau carlam penodol. Mae hyn yn wahanol i'r trefniadau cyllido cyfunol ar gyfer byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd. Ystyrir bod y Rhaglen a'i hymagwedd yn brawf o gysyniad neu'n ddangosydd ac mae wedi'i hadolygu'n allanol, gan dderbyn cymeradwyaeth ac argymhellion cadarnhaol.

Mae Llywodraeth Cymru'n credu y dylai'r dull hwn gael ei fabwysiadu'n fwy eang ar draws GIG Cymru. Byddwn yn rhannu'r model a'r dysgu hwn gyda byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, er mwyn iddynt allu ei ddefnyddio i fabwysiadu technoleg ac arloesedd o'u hadnoddau eu hunain, fel rhan o'u busnes craidd. Byddwn yn defnyddio Cynllun Tymor Canolig Integredig i gytuno gyda byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd sut y byddant yn gwneud hynny, gan gynnwys y lefel o adnoddau y byddant yn ei hymrwymo'n unol a/neu ar y cyd i'r maes pwysig hwn. Byddwn yn monitro gweithgarwch a chanlyniadau drwy ein dull goruchwylio ac adrodd rheolaidd.

**Safbwyntiau ar sut y gall Llywodraeth Cymru gydbwyso'r angen am wariant ataliol a mynd i'r afael yn effeithiol â'r pwysau o ran costau dyddiol.**

Mae'r pwysau costau dyddiol sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru, fel yn achos pob system gofal iechyd fodern arall, yn heriol iawn. Rhagwelir y bydd poblogaeth Cymru yn newid ac yn cynyddu o 3.1 miliwn i 3.3 miliwn erbyn tua 2039, yn bennaf wrth i bobl fewnfudo o Loegr ac i raddau llai o'r tu allan i'r DU. O fewn y cynnydd cyffredinol hwn, rhagwelir y bydd y gyfran o bobl dros 65 oed yn cynyddu 20% o'r boblogaeth i dros chwarter. Gyda phoblogaeth sy'n cynyddu ac yn heneiddio, a'r patrymau a baich clefydau sy'n cyd-fynd â hynny, bydd angen, ac rydym wedi dod i ddisgwyl, mynediad amserol at driniaeth a chymorth o ansawdd uchel. Bydd angen triniaeth a chymorth ar gyfran sylweddol iawn o'r boblogaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol: bydd nifer o unigolion sydd wedi cymryd cyfrifoldeb llawn dros eu hiechyd eu hunain ac sydd wedi bod yn ddigon ffodus i fwynhau amgylchiadau ehangach sy'n ffafriol i iechyd da, yn parhau i allu cael triniaeth gostus a chymhleth.

Nid yw bob amser yn briodol tybio y bydd dulliau ataliol yn lleihau costau darpariaeth gofal iechyd. Bu dadansoddiad diweddar gan Ymddiriedolaeth Nuffield[1] yn ystyried mentrau amrywiol sydd wedi'u cynnwys o dan yr ambarél o symud gofal o ysbytai. O'r 27 o gynlluniau cyffredin, canfuwyd mai dim ond saith ohonynt oedd yn llwyddo i arbed costau a bod chwech ohonynt wedi cynyddu costau. Mae dau ffactor amlwg yma: a) gall ehangu gofal y tu allan i ysbytai (gan ragdybio hyd yn oed y gellir denu'r gweithlu mwy hwn ac yna talu amdano) ddatgelu anghenion heb ei gyflawni'n flaenorol neu ddarparu gwasanaethau ychwanegol y gall cleifion wneud defnydd effeithiol ohonynt yn ychwanegol at yr hyn sydd eisoes yn bodoli, a ii) mae tueddiad i ragdybio y gellir cofnodi achosion o atal rhywun rhag cael ei dderbyn i'r ysbyty a'r holl gostau cysylltiedig fel arbedion, ond mewn gwirionedd gall hyn fod yn gymhleth iawn.

Er gwaethaf yr heriau, mae Llywodraeth Cymru'n cymryd llawer o gamau er mwyn sicrhau'r cydbwysedd gorau posibl o ran costau:

---

[1] https://www.nuffieldtrust.org.uk/research/shifting-the-balance-of-care-great-expectations



DRAFT

- Bod yn glir ynglŷn â'n disgwyliadau o Fyrddau Iechyd i ganolbwyntio ar atal – nid yn unig drwy ddeddfwriaeth megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ond hefyd wrth bennu blaenoriaethau atal drwy'r fframwaith cynllunio a thrwy drafodaethau ar berfformiad ac atebolrwydd;
- Mae yna adran o'r ddogfen hon sy'n categoreiddio gwariant ar atal o fewn y gyllideb. Mae gwella tryloywder o ran costau o fewn y gyllideb yn un ffordd o gefnogi mwy o symudiad at atal;
- Cefnogi Byrddau Iechyd a'u partneriaid i fuddsoddi mewn dulliau atal drwy ddarparu tystiolaeth a chyngor ar ymyriadau gydag elw ar fuddsoddiadau. Er enghraifft cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ddogfen y llynedd*: Buddsoddi mewn Iechyd a Llesiant Cynaliadwy i Bobl Cymru*[2] sy'n darparu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio wrth atal a manylion ynglŷn ag elw ar fuddsoddiad.
- Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gwneud nifer o fuddsoddiadau uniongyrchol, er enghraifft drwy gyflwyno rhaglenni sgrinio a brechu.

## Perfformiad ariannol Byrddau Iechyd Lleol ac anghydraddoldebau iechyd

**Diweddariad ar y pedwar bwrdd iechyd a fethodd â chyflawni eu dyletswyddau a'u prosesau ariannol ar gyfer monitro cynnydd:**

Mae'r pedwar bwrdd iechyd (Byrddau Iechyd Athrofaol Abertawe Bro Morgannwg, Betsi Cadwaladr, Caerdydd a'r Fro a Hywel Dda) a fethodd â chyflawni eu dyletswyddau ariannol yn cael eu rheoli yn awr drwy'r Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd, naill ai fel rhan o Fesurau Arbennig neu Ymyrraeth wedi'i Thargedu. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd misol Mesurau Arbennig neu Ymyrraeth wedi'i Thargedu gydag uwch swyddogion Llywodraeth Cymru, er mwyn cytuno ar gymorth, camau gweithredu a dulliau cyflawni.
I'r tri sefydliad sy'n destun trefniadau Ymyrraeth wedi'i Thargedu, cafodd Adolygiadau Llywodraethu Ariannol annibynnol eu comisiynu, eu cynhyrchu a'u cyflwyno. Bu pob Bwrdd yn ystyried yr argymhellion a chytunwyd ar eu camau gweithredu yn eu cyfarfodydd Bwrdd unigol ym mis Medi. Bydd y camau gweithredu hyn yn cael eu monitro drwy'r cyfarfodydd misol Ymyrraeth wedi'i Thargedu.
Yng ngoleuni'r perfformiad ariannol parhaus ym Mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, comisiynwyd Adolygiad Llywodraethu Ariannol arall gyda'r bwriad o'i gwblhau erbyn canol Tachwedd.

**Manylion pryd y bydd adolygiad Llywodraeth Cymru o'r fformiwla ariannu ar gyfer byrddau iechyd er mwyn sicrhau tegwch ar hyd a lled Cymru yn cael ei gwblhau**

Nod yr adolygiad dyrannu adnoddau Cam 2 yw datblygu fformiwla ariannu erbyn haf 2018 a fydd yn llywio dosbarthiad unrhyw ddyraniad ychwanegol yn ôl disgresiwn ar gyfer gwasanaethau iechyd ysbytai a chymunedol yn 2018-19. Cydnabyddir y bydd yr ymarferiad technegol hwn yn un cymhleth a fydd yn gorfod adlewyrchu ar y mesurau anghenion mwyaf priodol ac unrhyw ffactorau unigryw cydnabyddedig. Yn ogystal, bydd y fformiwla newydd wedi'i chynllunio i fod yn agored, a bydd yn cael ei diweddaru'n rheolaidd gyda data cyfredol a dibynadwy ar y boblogaeth ac anghenion.

**Ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar weithredu Deddf Cyllid y GIG.**

Croesawodd Llywodraeth Cymru ganfyddiadau'r adroddiad a darparodd yr ymateb canlynol i'r ddau argymhelliad ynddo.

**Argymhelliad 1**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn:**

DRAFT

[2] http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/87127

a) nodi'n gliriach yn ei chanllawiau sut y dylai cyrff y GIG sydd â diffyg, gan weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, adfer eu sefyllfa ariannol er mwyn cyflawni'r ddyletswydd mewn blynyddoedd i ddod; a
b) gwella ei ffurflenni monitro drwy gynnwys y sefyllfa yn erbyn y cyfnodau treigl o dair blynedd, nid dim ond y darlun blynyddol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyniwyd yn Rhannol**

Nid yw Llywodraeth Cymru'n derbyn bod angen arweiniad ychwanegol ar gyrff y GIG gan Lywodraeth Cymru ar y camau gweithredu sydd eu hangen i adennill diffyg er mwyn cyflawni'r ddyletswydd yn y dyfodol. Nodwyd gweithrediad y ddyletswydd ym Memorandwm Esboniadol y Ddeddf, ac mae wedi'i nodi hefyd yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru (2016) 054 – Dyletswyddau Ariannol Statudol Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod yr angen i sicrhau bod holl aelodau newydd byrddau yn deall dyletswyddau'r sefydliad, ac y bydd y gofyniad hwn yn cael ei drin a'i drafod yn Rhaglen Sefydlu'r Aelodau Annibynnol.

Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn yr argymhelliad bod angen i'n proses fonitro reolaidd gynnwys safbwynt tair blynedd yn ogystal â'r sefyllfa flynyddol i'r sefydliadau hynny sy'n gweithio i gynlluniau tair blynedd cymeradwy. Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried yr ychwanegiadau y mae angen inni eu gwneud i'r broses fonitro, i gynnwys y safbwynt hwn. Bydd hyn yn cael ei gwblhau erbyn 31 Hydref 2017.

**Argymhelliad 2**

**Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru** gwblhau'r adolygiad o'i fformiwla gyllido ar gyfer byrddau iechyd yn fuan er mwyn sicrhau bod amrywiadau mewn lefelau cyllido yn adlewyrchu gwahaniaethau yn anghenion iechyd poblogaethau a phenderfynyddion eraill costau gofal iechyd yn briodol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

***Derbyniwyd***

Cwblhawyd Cam 1 yr adolygiad o'r dyraniad adnoddau o fewn elfen Trefn Gyllidol Law yn Llaw at Iechyd. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu datblygu Cam 2 maes o law.

**Pwysau'r gweithlu**

**Manylion pwysau penodol a phrinder staff a chynlluniau ariannol pellach i fynd i'r afael â hyn:**

Nid dim ond GIG Cymru sy'n profi anawsterau recriwtio i rai swyddi. Mae yna heriau ar hyd a lled y DU yn ogystal â phrinderau rhyngwladol ar gyfer rhai mathau o swyddi.

Mewn marchnad gystadleuol o'r fath ac er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid i gynnal ymgyrch farchnata a recriwtio genedlaethol a rhyngwladol, sydd wedi'i datblygu mewn partneriaeth â'r proffesiynau, ysgolion meddygol prifysgolion, colegau brenhinol, cyflogwyr y GIG a Deoniaeth Cymru, i farchnata Cymru a GIG Cymru fel lle deniadol i feddygon (gan gynnwys meddygon teulu), nyrsys, fferyllwyr a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a'u teuluoedd, i hyfforddi, gweithio a byw. Roedd y cam cyntaf, a lansiwyd yn Hydref 2016, wedi'i ganolbwyntio'n bennaf ar feddygon (gan gynnwys meddygon teulu) a chafodd ei ail-lansio'r mis hwn; roedd yr ail gam a lansiwyd ym Mai 2017 yn canolbwyntio ar nyrsys ac roedd y trydydd a'r pedwerydd cam, a fydd yn canolbwyntio ar fferyllwyr a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, yn cael eu lansio ym mis Mawrth 2018.

Bwriedir i'r ymgyrchoedd hyn gefnogi ymgyrchoedd recriwtio lleol byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd. Mae gan Gofal Cymdeithasol Cymru, corff wedi ei noddi gan Lywodraeth Cymru, a ddaeth i rym o 1 Ebrill 2017, gyfrifoldeb i lywio gwelliannau i wasanaethau ac ysgogi gofal o ansawdd uchel, yn ogystal â chodi proffil y gweithlu a chefnogi ei broffesiynoldeb. Mae'n datblygu amrediad o gamau



DRAFT

gweithredu er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau hyn, gan gynnwys llwybrau gyrfa, adolygu graddfeydd gwaith cymdeithasol a datblygu cronfa ddata genedlaethol er mwyn nodi tueddiadau yn y dyfodol o ran y galw am ofal cymdeithasol. Bydd hyn yn helpu i godi proffil y sector a mynd i'r afael â'r anawsterau recriwtio a chadw presennol, a chyfrannu at gynaliadwyedd y sector gofal cymdeithasol yn y tymor hwy.

**Manylion cynlluniau ar gyfer llwybrau sgiliau a gyrfa newydd i staff iechyd a gofal cymdeithasol ac unrhyw ddyraniadau cysylltiedig (argymhellwyd hyn yn adroddiad yr Adolygiad Seneddol Interim a oedd yn datgan bod angen cynllunio'r rhain ar raddfa fawr yn ddi-oed);**

Yn y GIG yng Nghymru, y byrddau a'r ymddiriedolaethau iechyd sy'n gyfrifol am ddulliau cadarn ar gyfer cynllunio'r gweithlu, am mai hwy sydd yn y sefyllfa orau i sicrhau bod eu sefydliadau wedi'u staffio'n briodol i ddarparu'r gwasanaethau sy'n cyd-fynd ag anghenion eu poblogaeth leol – yn awr ac yn y dyfodol.

Er mwyn cyflawni'r heriau sy'n wynebu'r system iechyd yn awr ac yn y dyfodol, mae'n bwysig sicrhau bod gweithlu'r dyfodol yn ddigon hyblyg i alluogi i newidiadau i fodelau gwasanaeth gael eu cefnogi drwy raglenni addysg a hyfforddiant addasol. Mae'r un mor bwysig galluogi cymaint o unigolion â phosibl i geisio a chyflawni gyrfa yn y system iechyd. Bydd hyn yn cynnwys natur rhaglenni a llwybrau mynediad. Cyflwynwyd rhaglenni rhan amser newydd ar gyfer addysg nyrsys yn 2017, ac er mai nifer gyfyngedig ohonynt sydd ar gale ar hyn o bryd, y bwriad yw datblygu hyn yn y dyfodol. Mae'r fframwaith gweithwyr cymorth gofal iechyd yn parhau i esblygu a darparu mwy o lwybrau gyrfa hyblyg i unigolion.

Yn ogystal, mae rhaglenni arfer uwch a sgiliau estynedig ar waith, gyda dyraniadau penodol ar gyfer unigolion ymarfer meddygol i feithrin sgiliau ychwanegol.

**Unrhyw waith cynllunio / asesu a wnaed ar anghenion ariannu yn y dyfodol ar ôl Brexit, er enghraifft o ystyried newidiadau posibl i gostau staff asiantaeth.**

Ni allwn wneud unrhyw amcanestyniadau ariannol ar effaith Brexit ar gostau staffio nes y byddwn wedi gweld canlyniad y negodiadau a beth mai'r rhain yn ei olygu i'r GIG o'r UE ac i'r rhai o rannau eraill y byd. Mae Llywodraeth Cymru yn sicr ein bod eisiau galluogi'r holl aelodau o staff ymroddedig hynny sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru i aros yma, er mwyn cyfrannu at fywyd Cymru a rhedeg ein GIG.

Rydym yn gweithio gyda'r GIG i barhau i ystyried effaith cynigion Brexit wrth iddynt ddatblygu ac mae cyflogwyr yn gweithio yng nghynghrair ehangach Cavendish y DU er mwyn asesu effaith a dylanwadu ar Lywodraeth y DU yn y materion hyn.

**Integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol**

**Dyraniadau ariannol i ysgogi integreiddio, e.e. datblygu gweithwyr proffesiynol iechyd/gofal cymdeithasol sy'n gallu gweithio ar draws ffiniau gwasanaethau.**

Mae un o brif egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn canolbwyntio ar bartneriaeth, ac mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn bosibl i wasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol gael eu darparu mewn dull mwy cydgysylltiedig. Mae hyn yn golygu y bydd y gwasanaethau'n cydweithio'n agosach, a bydd mathau newydd o wasanaethau a swyddi yn cael eu datblygu sy'n gweithio'n hyblyg ar draws sefydliadau.

Datblygwyd fframwaith dysgu a datblygu ar gyfer Therapyddion Galwedigaethol ym maes Gofal Cymdeithasol, i ddarparu arweiniad i Therapyddion Galwedigaethol sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd yn hwyluso datblygiad proffesiynol, clinigol ac yn rheoli datblygiad Therapyddion Galwedigaethol, er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o sgiliau a bod y gwasanaethau yn effeithiol. Bydd yn cynorthwyo i gyflawni anghenion gyrfa Therapyddion Galwedigaethol ac yn helpu i lywio gyrfaoedd Therapi Galwedigaethol yng Nghymru yn y dyfodol, er mwyn gwneud y gorau o effaith y gweithlu Therapi Galwedigaethol wrth ddarparu gwasanaethau gofal



DRAFT

cymdeithasol.  Mae'r fframwaith yn alinio gyda fframwaith newydd y GIG ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, "Modernising Allied Health Professional Careers in Wales", y fframwaith Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a'r fframwaith gyrfa cyffredinol sy'n cael ei ddatblygu gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol er mwyn hwyluso9 symudiad tuag at wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol mwy integredig.

Yn yr un modd, datblygwyd Fframwaith Sefydlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Gymru ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr cymorth gofal iechyd sydd wedi'u cyflogi mewn lleoliadau cymunedol ar gyfer oedolion a phlant a phobl ifanc.  Mae'n darparu strwythur ar gyfer sefydlu ac mae'n amlinellu'r wybodaeth a'r sgiliau y mae angen i weithwyr newydd ddangos tystiolaeth ohonynt yn ystod chwe mis cyntaf eu cyflogaeth.  Mae'r fframwaith sefydlu yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn ffordd ddi-dor, effeithiol ac effeithlon er mwyn hybu llesiant a chyflawni'r canlyniadau gorau posibl i bobl yng Nghymru.

**Chwaraeon Cymru**

**Y cyllid a ddyrannwyd i Chwaraeon Cymru, dulliau o fonitro'r gwariant ac a yw'r dyraniadau'n cael eu defnyddio'n effeithiol i gyflawni canlyniadau i bobl yng Nghymru.**

Mae gan Chwaraeon Cymru gylch gwaith deuol o gefnogi chwaraeon elitaidd a chwaraeon perfformiad, gan ddefnyddio arian y Loteri, yn ogystal â darparu chwaraeon cymunedol a gweithgareddau hamdden corfforol i'r boblogaeth, gan ddefnyddio cymysgedd o gyllid gan y Loteri a Llywodraeth Cymru.

Profwyd bod gweithgarwch corfforol yn chwarae rôl arwyddocaol mewn iechyd ac atal salwch, a gall gyfrannu at lesiant meddyliol a lleihau arwahanrwydd.  Mae gan chwaraeon rôl ystyrlon wrth gyfrannu at lefelau gweithgarwch corfforol.  Dyma yw'r rheswm pam y cafodd Chwaraeon ac Iechyd y Cyhoedd eu huno yn y Llywodraeth hon.

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae pobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon yn fwy tebygol o ddilyn y canllawiau gweithgaredd corfforol. Ac mae pobl s y'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden corfforol hefyd yn llai tebygl o ysmygu, yn fwy tebygol o fwyta pum dogn o ffrwythau llysiau y dydd ac yn llai tebygol o fod yn ordew.

Mae Chwaraeon Cymru yn gyfrifol am geisio cynyddu nifer y bobl sy'n cyflawni canllawiau'r Prif Swyddog Meddygol ar gyfer gweithgarwch ac mae ganddynt nifer o raglenni sefydledig ar waith, sy'n cael eu darparu gan amrediad o bartneriaid sefydledig.  Yn ogystal, mae eu rhaglen GalwAmWeithredu wedi gweithio gyda phartneriaid newydd er mwyn targedu cohortau penodol sy'n cael eu tangynrychioli, naill ai oherwydd eu rhyw, ethnigrwydd neu eu hardal o amddifadedd.

Comisiynodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol adolygiad annibynnol yn 2017 o Chwaraeon Cymru ac yn dilyn hynny gwnaeth ddatganiad polisi yn datgan ei blaenoriaethau yn glir ar gyfer y sefydliad wrth gyflawni canlyniadau gweithgarwch corfforol.  Mae Chwaraeon Cymru yn cynnal gwerthusiadau yn awr o'i raglenni hirsefydledig er mwyn herio canlyniadau cyflawni ac ymateb i'r blaenoriaethau hyn.  Mae'r llythyr cylch gwaith presennol yn cyfeirio Chwaraeon Cymru i ddatblygu fframwaith canlyniadau a mesurau newydd a fydd yn arddangos ei gyfraniad i Ffyniant i Bawb.

Yn ogystal, mae'r Gweinidog yn mynnu bod Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydweithio i gyflawni'r ymrwymiad i gynyddu'n arwyddocaol y lefelau o weithgarwch corfforol sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu Iach a Gweithgarwch sy'n cael ei ddatblygu.

**Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**



DRAFT

**Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

DRAFT

## Atodiad A

**Sylwadau ar bob un o'r Camau Gweithredu yn y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, gan gynnwys dadansoddiad ac esboniad o'r newidiadau rhwng Cyllideb Ddrafft 2018-19 a'r Gyllideb Atodol Gyntaf (Mehefin 2017).**

**Ail-alinio gyda'r MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**
O fewn y MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, rydym wedi adolygu strwythur cyllideb y Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) a gwneud nifer o newidiadau, a oedd yn golygu gwneud nifer o drosglwyddiadau rhwng Llinellau Gwariant yn y Gyllideb. Nodir manylion y rhain isod.

Yn benodol, nodwch ein bod wedi gwneud y newidiadau canlynol:

- Mewn ymateb i geisiadau niferus gan bwyllgorau blaenorol ar dryloywder y cyllid ar gyfer iechyd, rydym wedi sefydlu BEL newydd yn dwyn y teitl "Dyraniadau Uniongyrchol Eraill y GIG", a fydd yn cynnwys cyllid ar gyfer cyrff y GIG nad yw'n ffurfio rhan o'r dyraniad refeniw craidd ar gyfer byrddau iechyd lleol, er enghraifft ariannu NWIS ac ariannu gwasanaethau gofal sylfaenol sy'n cael eu harwain gan alw megis profion llygaid.

- O ganlyniad, bydd hyn yn sicrhau gwell cyfatebiaeth rhwng y BEL "Dyraniadau Craidd" a'r dyraniad refeniw i fyrddau iechyd y byddwn yn ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn yr Hydref.

- Rydym wedi cau nifer o BELs a oedd yn cynnwys cyllidebau penodol sy'n cael eu dyrannu yn y pen draw i sefydliadau'r GIG, er enghraifft y BEL Cyllidebau Gwybodaeth Canolog, a oedd yn cynnwys cyllid ar gyfer NWIS a'r BEL Gofal Sylfaenol, gan gynnwys cyllidebau gofal sylfaenol sy'n cael eu harwain gan alw ac sy'n cael eu rheoli'n ganolog.

**Dyraniadau Craidd BEL 0020 y GIG**

| Cyllideb atodol gyntaf 2017-18 £'000 | Gwelodlin Diwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 6,353,668 | 6,344,788 | 174,530 | 6,519,318 | 220,000 | 6,739,318 |

**Esboniad o'r Newidiadau ar gyfer Cyflawni'r BEL Dyraniadau Craidd y GIG.**

**2018-19**
***Y newid rhwng Cyllideb Atodol Gyntaf a Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18***
- Dileu cyllid anghylchol yn ystod y flwyddyn (Y Gordal Iechyd Mewnfudo a Gwaed Halogedig)

***Y newid rhwng Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2018-19***
- Dyraniad MEG o £230,000 ar gyfer gwasanaethau'r GIG
- (£1,531) i Gyllidebau Eraill y GIG - Gwariant (BEL 0682) ar gyfer ymarferiad ail-alinio tablau BEL Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (cyllidebau amrywiol)
- (£53,939) i Ddyraniadau Eraill Uniongyrchol y GIG (BEL 0030) ar gyfer yr ymarfer ail-alinio tablau BEL Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (dyraniadau uniongyrchol eraill cyllideb y GIG a gyhoeddwyd)

**2019-20**
***Y newid rhwng Cyllideb Ddrafft 2018-19 a chynlluniau newydd (Cyllideb Ddrafft) 2019-20***
- Dyraniad MEG o £220,000 ar gyfer gwasanaethau'r GIG


DRAFFT

**BEL 0030 Dyraniadau Uniongyrchol Eraill y GIG**

| Cyllideb atodol gyntaf 2017-18 £'000 | Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 ar gyfer £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 0 | 0 | 251,935 | 251,935 | 0 | 251,935 |

**Esboniad o'r Newidiadau ar gyfer Cyflawni BEL Dyraniadau Craidd y GIG 2018-19**
***Y newid rhwng Cyllideb Atodol Gyntaf a Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18***

- Dim newid, crëwyd BEL newydd yn y gyllideb ddrafft

***Y Newid rhwng Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2018-19***

- £53,939 o Wasanaethau Craidd y GIG (BEL 0020) ar gyfer ymarfer ail-alinio Tablau Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (dyraniadau uniongyrchol eraill cyllideb y GIG a gyhoeddwyd)
- £42,319 o'r Llinell Wariant Gofal Sylfaenol y GIG (BEL Caeedig 0180) ar gyfer yr ymarfer ail-alinio
- £129,192 o Gyllidebau Eraill y GIG - Gwariant (BEL 0180) ar gyfer ymarfer ail-alinio arall o Dablau BEL Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (dyraniadau uniongyrchol eraill cyllideb y GIG a gyhoeddwyd)
- £28,369 o'r Cyllidebau Canolog Gwybodaeth (BEL Caeedig 0257) ar gyfer ymarfer ail-alinio Tablau Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (dyraniadau uniongyrchol eraill cyllideb y GIG a gyhoeddwyd)
- £1,116 o'r Cymorth Hosbis (BEL Caeedig 0286) ar gyfer ymarfer ail-alinio Tablau BEL Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (dyraniadau uniongyrchol eraill cyllideb y GIG a gyhoeddwyd (Cyllid Hosbis))
- £1,000 o'r Cronfeydd Wrth Gefn Canolog: Cytundeb cyllideb ar gyllid Diwedd Oes.
- (£4,000) cyfraniad i ostyngiad arbedion cytunedig i'r MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ar gyfer Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg

**2019-20**
***Y newid rhwng Cyllideb Ddrafft 2018-19 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2019-20***

- Dim newidiadau

**BEL 0250 Iechyd Cyhoeddus Cymru**

| Cyllideb atodol gyntaf 2017-18 £'000 | Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 88,880 | 88,880 | -464 | 88,416 | 0 | 88,416 |

**Esboniad o Newidiadau i BEL Iechyd y Cyhoedd**
**2018-19**
***Y newid rhwng y Gyllideb Atodol Gyntaf a'r Gwaelodlin Diwygiedig ar gyfer 2017-18***

- Dim newidiadau

***Y newid rhwng Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2018-19***

DRAFT

- (£464) i'r BEL Diogelu Iechyd a Brechu wedi'i Thargedu (BEL 232) ar gyfer ymarfer ail-alinio y BEL Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd)

**2019-20**

***Y newid rhwng Cyllideb Ddrafft 2018-19 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2019-20***

- Dim newidiadau

**BEL 0180 Gofal Sylfaenol y GIG – BEL CAEËDIG**

| Cyllideb atodol gyntaf 2017-18 £'000 | Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 46,906 | 46,906 | -46,906 | 0 | 0 | 0 |

**Esboniad o'r Newidiadau i BEL Gofal Sylfaenol y GIG**

**2018-19**

***Y newid rhwng y Gyllideb Atodol Gyntaf a'r Gwaelodlin diwygiedig ar gyfer 2017-18***

- Dim newidiadau

***Y newid rhwng Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2018-19***

- (£42,319) i Ddyraniadau Uniongyrchol Eraill y GIG (BEL 0030) ar gyfer ymarfer ailalinio tablau y BEL Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (dyraniadau uniongyrchol eraill cyllideb y GIG a gyhoeddwyd)
- (£4,587) i Gyllidebau Eraill y GIG – Gwariant (BEL 0682) ar gyfer ymarfer ailalinio tablau y BEL Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (dyraniadau uniongyrchol eraill cyllideb y GIG a gyhoeddwyd)

**2019-20**

***Y newid rhwng Cyllideb Ddrafft 2018-19 a Chynlluniau Newydd 2019-20 (Cyllideb ddrafft)***

- Dim newidiadau

**Bel 0257 Cyllidebau Gwybodaeth Canolog - BEL CAEËDIG**

| Cyllideb atodol gyntaf 2017-18 £'000 | Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 28,369 | 28,369 | 28,369 | 0 | 0 | 0 |

**Esboniad o'r Newidiadau i gyllidebau Gwybodaeth Canolog BEL**

**2018-19**

***Y newid rhwng y Gyllideb Atodol Gyntaf a'r Gwaelodlin diwygiedig ar gyfer 2017-18***

- Dim newidiadau

***Y newid rhwng Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 a Chynlluniau newydd 2018-19 (Cyllideb Ddrafft)***

- (£28,369) i Ddyraniadau Uniongyrchol Eraill y GIG (BEL 0030) ar gyfer ymarfer ail-alinio Tablau y BEL, Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (Dyraniad Uniongyrchol Arall y GIG (NWIS))

DRAFT

**2019-20**

***Y newid rhwng Cyllideb Ddrafft 2018-19 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2019-20***

- Dim newidiadau

**BEL 0265 Ansawdd a Chyfranogiad Diogelwch Cleifion – BEL CAEËDIG**

| Cyllideb atodol gyntaf 2017-18 £'000 | Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 2,588 | 2,588 | -2,588 | 0 | 0 | 0 |

**Esboniad o'r Newidiadau i BEL Gofal Sylfaenol y GIG**
**2018-19**

***Y newid rhwng y Gyllideb Atodol Gyntaf a'r Gwaelodlin diwygiedig ar gyfer 2017-18***

- Dim newidiadau

***Y newid rhwng Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2018-19***

- (£2,588) miliwn i'r BEL Gwella Iechyd a Gweithio'n Iach (BEL 231) ar gyfer ymarfer ailalinio Tablau Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (cyllidebau iechyd amrywiol)

**2019-20**

***Y newid rhwng Cyllideb Ddrafft 2018-19 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2019-20***

- Dim newidiadau

**BEL 0275 Clefydau Cronig – BEL CAEEDIG**

| Cyllideb atodol gyntaf 2017-18 £'000 | Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 72 | 72 | -72 | 0 | 0 | 0 |

**Esboniad o'r Newidiadau i'r BEL Clefydau Cronig**
**2018-19**

***Y newid rhwng y Gyllideb Atodol Gyntaf a'r Gwaelodlin diwygiedig ar gyfer 2017-18***

- Dim newidiadau

***Y newid rhwng Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 a Chynlluniau Newydd 2018-19 (Cyllideb Ddrafft)***

- (£72) i Gyllidebau Eraill y GIG – Gwariant (BEL 0682) ar gyfer ymarfer ailalinio Tablau Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (cyllideb iechyd amrywiol)

**2019-20**

***Y newid rhwng Cyllideb Ddrafft 2018-19 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2019-20***

- Dim newidiadau

**BEL 0682 Cyllidebau Iechyd Eraill - Gwariant**

| Cyllideb atodol | Gwaelodl | Newid | Cynlluniau | Newid | Cynlluniau |
|---|---|---|---|---|---|

DRAFT

| gyntaf 2017-18 £'000 | in Diwygiedig 2017-18 £'000 | £'000 | Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 £'000 | £'000 | Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 95,674 | 104,723 | -77,368 | 27,355 | -13,247 | 14,108 |

**Esboniad o'r Newidiadau i Gyllidebau Iechyd Eraill – BEL Gwariant**

**2018-19**

***Y newid rhwng y Gyllideb Atodol Gyntaf a'r Gwaelodlin diwygiedig ar gyfer 2017-18***

- Dileu cyllid anghylchol yn ystod y flwyddyn (Buddsoddi i Arbed)

***Y newid rhwng Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2018-19***

- £1,531 o Wasanaethau Craidd y GIG (BEL 0020) ar gyfer ymarfer ailalinio Tablau BEL Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (amrywiol gyllidebau amrywiol)
- (£129,192) i Ddyraniadau Uniongyrchol Eraill y GIG (BEL 0030) ar gyfer ymarfer ailalinio (dyraniadau uniongyrchol eraill cyllideb y GIG a gyhoeddwyd)
- £4,587 o BEL Gofal Sylfaenol y GIG (BEL Caeëdig 0180) ar gyfer ymarfer ail-alinio Tablau BEL Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (amrywiol gyllidebau amrywiol)
- (£63,000) i'r BEL Gwella Iechyd a Gweithio'n Iach (BEL 0231) ar gyfer ymarfer ailalinio Tablau BEL Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (amrywiol gyllidebau amrywiol)
- (£4,190) i'r BEL Diogelu Iechyd a Brechu wedi'i Dargedu (BEL 0232) ar gyfer ymarfer ailalinio Tablau BEL Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (y gyllideb Organau a Meinwe)
- £72,000 o'r BEL Clefydau Cronig (BEL Caeëdig 0275) ar gyfer ymarfer ailalinio Tablau BEL Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
- £140,000 o'r Cymorth Hosbis (BEL Caeedig 0286) ar gyfer yr ymarfer ailalinio Tablau BEL Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (newid i gyllidebau amrywiol)
- £53,000 i Gyllidebau Eraill y GIG – Incwm (BEL 0682) ar gyfer ymarfer ailalinio Tablau BEL Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (Cyllideb Incwm PPRS)
- (£24,000) i Iechyd Meddwl (BEL 0270) ar gyfer ymarfer ailalinio Tablau Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (cyllideb iechyd meddwl amrywiol) £230,000 miliwn o ddyraniad MEG ar gyfer gwasanaethau'r GIG
- (£278,000) ar gyfer addasiad cytunedig Buddsoddi i Arbed gyda'r MEG CSA
- (£522,000) cyfraniad i ostyngiad arbedion cytunedig i'r MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ar gyfer cyllid grant Sêr Cymru
- (£300,000) cyfraniad i ostyngiad arbedion cytunedig i'r MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ar gyfer cyllid peilot Dewis Fferyllfa
- (£2,129) cyfraniad i ostyngiad arbedion cytunedig i'r MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ar gyfer cronfa wrth gefn Ganolog y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**2019-20**

***Y newid rhwng Cyllideb Ddrafft 2018-19 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2019-20***

- £1,131 dyraniad MEG o ran addasiadau cytunedig Buddsoddi i Arbed gyda MEG CSA
- £20,000 o drosglwyddiad MEG i MEG ar gyfer yr Ystadau Diogeledd
- (£13,881) cyfraniad i ostyngiad arbedion cytunedig i'r MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ar gyfer cronfa wrth gefn Ganolog y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- (£517,000) cyfraniad i ostyngiad arbedion cytunedig i'r MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ar gyfer cyllid grant Sêr Cymru

DRAFT

**BEL 0682 Cyllidebau Iechyd Eraill - Incwm**

| Cyllideb atodol gyntaf 2017-18 £'000 | Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 0 | 0 | -53,000 | -53,000 | | -53,000 |

**Esboniad o Newidiadau i Gyllidebau Iechyd Eraill – BEL Incwm**

**2018-19**

***Y newid rhwng y Gyllideb Atodol Gyntaf a'r Gwaelodlin diwygiedig ar gyfer 2017-18***

- Dim newidiadau, crëwyd BEL newydd yn y gyllideb Ddrafft

***Y newid rhwng Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2018-19***

- (£53,000) o Gyllidebau Eraill y GIG – Gwariant (BEL 0682) ar gyfer ymarfer ailalinio Tablau BEL Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (Cyllideb Incwm PPRS)

**2019-20**

***Y newid rhwng Cyllideb Ddrafft 2018-19 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2019-20***

- Dim newidiadau

**BEL 0140 Addysg a Hyfforddiant**

| Cyllideb atodol gyntaf 2017-18 £'000 | Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 194,051 | 187,851 | 8,985 | 196,836 | | 196,836 |

**Esboniad o'r Newidiadau i'r BEL Addysg a Hyfforddiant**

**2018-19**

***Y newid rhwng y Gyllideb Atodol Gyntaf a'r Gwaelodlin diwygiedig ar gyfer 2017-18.***

- Dileu cyllid anghylchol yn ystod y flwyddyn.

***Y newid rhwng Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2018-19***

- (£15,000) miliwn i'r BEL Gwella Iechyd a Gweithio'n Iach (BEL 0231) ar gyfer ymarfer ailalinio Tablau BEL Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (newid i'r cyllidebau amrywiol)
- £9,000 o'r Cronfeydd wrth Gefn Canolog: Cytundeb Cyllidebol ar gyfer Cronfa Ddatblygu Gogledd Cymru (£7,000) a chynllun peilot Buurtzorg Cymru (£2,000)

DRAFT

**2019-20**

***Y newid rhwng Cyllideb Ddrafft 2018-19 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2019-20***

- Dim newidiadau

**BEL 0185 Cyllidebau Canolog Datblygu'r Gweithlu**

| Cyllideb atodol gyntaf 2017-18 £'000 | Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 2506 | 2506 | -50 | 2,456 | 0 | 2,456 |

**Esboniad o'r Newidiadau i'r BEL Cyllidebau Canolog Datblygu'r Gweithlu**

**2018-19**

***Y newid rhwng y Gyllideb Atodol Gyntaf a'r Gwaelodlin diwygiedig ar gyfer 2017-18***

- Dim newidiadau

***Y newid rhwng Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 a Chynlluniau newydd (Cyllideb Ddrafft) 2018-19***

- (£50,000) ar gyfer trosglwyddiad cyllid grant cytunedig (Cymru o Blaid Affrica) i MEG CSA

**2019-20**

***Y newid rhwng Cyllideb Ddrafft 2018-19 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2019-20***

- Dim newidiadau

**BEL 0270 Iechyd Meddwl**

| Cyllideb atodol gyntaf 2017-18 £'000 | Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 3,255 | 2,255 | 1,024 | 3,279 | 0 | 3,279 |

**Esboniad o Newidiadau i'r BEL Iechyd Meddwl**

**2018-19**

***Y newid rhwng y Gyllideb Atodol Gyntaf a'r Gwaelodlin diwygiedig ar gyfer 2017-18***

- Dileu cyllid anghylchol yn ystod y flwyddyn

***Y newid rhwng Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2018-19***

- £24,000 o Gyllideb Arall y GIG – Gwariant (BEL 0682) ar gyfer ymarfer ailalinio tablau BEL Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (trosglwyddo'r gyllideb iechyd meddwl)
- £1,000 o Gronfeydd Wrth Gefn Canolog: Cytundeb Cyllidebol ar Anhwylderau Bwyta a dysfforia rhywedd

**2019-20**

***Y newid rhwng Cyllideb Ddrafft 2018-19 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2019-20***

- Dim newidiadau

DRAFT

**BEL 0286 Cymorth Hosbis – BEL CAEËDIG**

| Cyllideb atodol gyntaf 2017-18 £'000 | Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 2,256 | 1,256 | -1,256 | 0 | 0 | 0 |

**Esboniad o'r newid i BEL Cymorth Hosbis**
**2018-19**
***Y newid rhwng y Gyllideb Atodol Gyntaf a'r Gwaelodlin diwygiedig ar gyfer 2017-18***

- Dileu cyllid anghylchol yn ystod y flwyddyn

***Y newid rhwng Gwaealodlin Diwygiedig 2017-18 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2018-19***

- (£1,116) i Ddyraniadau Uniongyrchol Eraill y GIG (BEL 0030) ar gyfer ymarfer ailalinio tablau BEL Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (dyraniad uniongyrchol arall y GIG wedi'i gyhoeddi)
- (£140,000) i Gyllidebau Eraill y GIG – Gwariant (BEL 0682) ar gyfer ymarfer ailalinio tablau BEL Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (amrywiol gyllidebau amrywiol)

**2019-20**
***Y newid rhwng Cyllideb Ddrafft 2018-19 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2019-20***

- Dim newidiadau

**BEL 1682 Cronfa Cynllun Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau**

| Cyllideb atodol gyntaf 2017-18 £'000 | Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 26,975 | 26,975 | -500 | 26,475 | -1,980 | 24,495 |

**Esboniad o'r Newidiadau i BEL Cyllid y Cynllun Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau**
**2018-19**
***Y newid rhwng y Gyllideb Atodol Gyntaf a'r Gwalodlin diwygiedig ar gyfer r2017-18***

- Dim newid

***Y newid rhwng Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2018-19***

- (£500,000) cyfraniad i ostyngiad arbedion cytunedig i'r MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon o gyllid Operation Tarian. Mae hyn yn cyd-fynd â chynnydd rheolaidd i ddyraniadau'r Bwrdd Iechyd Lleol sydd wedi'u clustnodi ar gyfer gwasanaethau triniaeth camddefnyddio sylweddau.

**2019-20**
***Y newid rhwng Cyllideb Ddrafft 2018-19 a Chynlluniau newydd (Cyllideb Ddrafft) 2019-20***

- (£1,980) cyfraniad i ostyngiad arbedion cytunedig i'r MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon o Raglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan (AWSLCP)

**BEL 0231 Gwella Iechyd a Gweithio'n Iach**



DRAFT

| Cyllideb atodol gyntaf 2017-18 £'000 | Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 3,903 | 3,903 | 9,641 | 13,544 | -156 | 13,388 |

**Esboniad o'r Newidiadau i'r BEL Gwella Iechyd a Gweithio'n Iach**
**2018-19**
***Y newid rhwng y Gyllideb Atodol Gyntaf a'r Gwaelodlin diwygiedig ar gyfer 2017-18***

- Dim newid

***Y newid rhwng Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2018-19***

- £15,000 o'r BEL Addysg a Hyfforddiant (BEL 0140) ar gyfer ymarfer ailalinio Tablau BEL Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (newid i gyllidebau amrywiol))
- £63,000 o Gyllidebau Eraill y GIG – Gwariant (BEL 0682) ar gyfer yr ymarfer ailalinio (newidiadau i gyllidebau amrywiol)
- £2,588 o'r BEL Ansawdd a Gwella Diogelwch Cleifion (BEL 0265) ar gyfer ymarfer ailalinio arall Tablau BEL Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (newidiadau amrywiol)
- £7,500 o'r BEL Bwyd Lles (BEL Caeëdig 0400) ar gyfer ymarfer alinio Tablau BEL Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (cyllideb Cychwyn Iach)
- £125,000 o'r BEL Diogelu ac Eiriolaeth (BEL 0460) ar gyfer ymarfer ailalinio Tablau BEL Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (cyllideb Iechyd Plant)
- (£600,000) cyfraniad i ostyngiad arbedion cytunedig i'r MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon o'r gyllideb Cychwyn Iach)
- (£50,000) cyfraniad i ostyngiad arbedion cytunedig i'r MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon o'r gyllideb Menter Ansawdd Gofal Iechyd

**2019-20**
***Y newid rhwng Cyllideb Ddrafft 2018-19 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2019-20***

- (£156,000) cyfraniad i ostyngiad arbedion cytunedig i'r MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon o'r gyllideb Gwella Iechyd

**BEL 0232 Diogelwch Iechyd a Brechu wedi'u Targedu**

| Cyllideb atodol gyntaf 2017-18 £'000 | Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 3,987 | 3,987 | 4,597 | 8,584 | 0 | 8,584 |

**Esboniad o'r Newidiadau i'r BEL Diogelwch Iechyd a Brechu wedi'u Targedu**
**2018-19**
***Y newid rhwng y Gyllideb Atodol Gyntaf a'r Gwaelodlin diwygiedig ar gyfer 2017-18***

- Dim newid

***Y newid rhwng Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2018-19***

- £4,190 o Gyllidebau Eraill y GIG - Gwariant (BEL 0682) ar gyfer ymarfer aliniad Tablau BEL Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (y gyllideb organau a meinwe)



DRAFT

- £464,000 o BEL Iechyd Cyhoeddus Cymru (BEL 0250) ar gyfer ymarfer ailalinio BEL Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd)
- (£57,000) cyfraniad i ostyngiad arbedion cytunedig i'r MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon o'r gyllideb Mentrau Arbennig

**2019-20**

***Y newid rhwng Cyllideb Ddrafft 2018-19 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2019-20***

- Dim newid

**BEL 0400 Bwyd a Lles – BEL CAEËDIG**

| Cyllideb atodol gyntaf 2017-18 £'000 | Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 7,500 | 7,500 | -7,500 | 0 | 0 | 0 |

**Esboniad o'r Newidiadau i'r BEL Bwyd a Lles**

**2018-19**

***Y newid rhwng y Gyllideb Atodol Gyntaf a'r Gwaelodlin diwygiedig ar gyfer 2017-18***

- Dim newidiadau

***Y newid rhwng Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2018-19***

- (£7,500) i'r BEL Gwella Iechyd a Gweithio'n Iach (BEL 0231) ar gyfer ymarfer ailalinio Tablau BEL Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (cyllideb Cychwyn Iach)

**2019-20**

***Y newid rhwng Cyllideb Ddrafft 2018-19 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2019-20***

- Dim newidiadau

**BEL 0230 Cynllunio at Argyfwng Iechyd**

| Cyllideb atodol gyntaf 2017-18 £'000 | Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 6,712 | 6,712 | -653 | 6,059 | -34 | 6,025 |

**Esboniad o'r Newidiadau i'r BEL Cynllunio at Argyfwng Iechyd**

**2018-19**

***Y newid rhwng y Gyllideb Atodol Gyntaf a'r Gwaelodlin diwygiedig ar gyfer 2017-18***

- Dim newid

***Y newid rhwng Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 a Chynlluniau newydd (Cyllideb Ddrafft) 2018-19***

- (£53,000) cyfraniad i'r gostyngiad arbedion cytunedig i'r MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon o gyllideb y Timau Ymateb mewn Ardaloedd Peryglus
- (£600,000) cyfraniad i'r gostyngiad arbedion cytunedig i'r MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon o'r timau cynllunio at Argyfwng Iechyd

**2019-20**



DRAFT

***Y newid rhwng Cyllideb Ddrafft 2018-19 a Chynlluniau newydd (Cyllideb Ddrafft) 2019-20***

- (£34,000) cyfraniad i'r gostyngiad arbedion cytunedig i'r MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon o gyllidebau DHSCR

**BEL 0260 Ymchwil a Datblygu**

| Cyllideb atodol gyntaf 2017-18 £'000 | Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 43,365 | 43,365 | -860 | 42,505 | -430 | 42,075 |

**Esboniad o'r Newidiadau i'r BEL Ymchwil a Datblygu**
**2018-19**
***Y newid rhwng y Gyllideb Atodol Gyntaf a'r Gwaelodlin diwygiedig ar gyfer 2017-18***

- Dim newid

***Y newid rhwng Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2018-19***

- (£860,000) cyfraniad i'r gostyngiad arbedion cytunedig i'r MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon o gyllidebau DHSCR

**2019-20**
***Y newid rhwng Cyllideb Ddrafft 2018-19 a Chynlluniau newydd (Cyllideb Ddrafft) 2019-20***

- (£430,000) cyfraniad i'r gostyngiad arbedion cytunedig i'r MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon o gyllidebau DHSCR

**BEL 0460 Diogelu ac Eiriolaeth**

| Cyllideb atodol gyntaf 2017-18 £'000 | Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 985 | 985 | 280 | 1,265 | 0 | 1,265 |

**Esboniad o'r Newidiadau i'r BEL Diogelu ac Eiriolaeth**
**2018-19**
***Y newid rhwng y Gyllideb Atodol Gyntaf a'r Gwaelodlin diwygiedig ar gyfer 2017-18***

- Dim newid

***Y newid rhwng Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2018-19***

- (£125,000) i'r BEL Gwella Iechyd a Gweithio'n Iach (BEL 0231) ar gyfer ailalinio Tablau Bel Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (cyllideb Iechyd Plant)
- £405,000 o'r BEL Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy (BEL 0920) ar gyfer ailalinio tablau BEL Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (newid i gyllidebau amrywiol)

**2019-20**
***Y newid rhwng Cyllideb Ddrafft 2018-19 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2019-20***

- Dim newid

DRAFT

**BEL 0661 Gofalwyr Pobl Hŷn a Phobl ag Anableddau**

| Cyllideb atodol gyntaf 2017-18 £'000 | Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 29,197 | 29,197 | -27,000 | 2,197 | 0 | 2,197 |

**Esboniad o'r Newid i'r BEL Gofalwyr Pobl Hŷn a Phobl ag Anableddau**
**2018-19**
***Y newid rhwng y Gyllideb Atodol Gyntaf a'r Gwaelodlin diwygiedig ar gyfer 2017-18***

- Dim newid

***Y newid rhwng Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2018-19***

- (£27,000) trosglwyddiad MEG i MEG i Lywodraeth Leol ar gyfer Grant Byw'n Annibynnol Cymru

**2019-20**
***Y newid rhwng Cyllideb Ddrafft 2018-19 a Chynlluniau newydd (Cyllideb Ddrafft) 2019-20***

- Dim newid

**BEL 0920 Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy**

| Cyllideb atodol gyntaf 2017-18 £'000 | Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 £'000 | Newid £'000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 42,132 | 12,132 | -817 | 11,315 | 0 | 11,315 |

**Esboniad o'r Newidiadau i'r BEL Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy**
**2018-19**
***Y newid rhwng y Gyllideb Atodol gyntaf a'r Gwaelodlin diwygiedig ar gyfer 2017-18***

- Trosglwyddiad MEG i MEG o Grantiau Llywodraeth Leol

***Y newid rhwng Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 a Chynlluniau Newydd (Cyllideb Ddrafft) 2018-19***

- (£405,000) i'r BEL Diogelu ac Eiriolaeth (BEL 0460) ar gyfer ailalinio Tablau BEL Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (newid i gyllidebau amrywiol)
- (£391,000) trosglwyddiad MEG i MEG i Lywodraeth Leol ar gyfer cyllid Ystadau Diogeledd
- (£21,000) cyfraniad i'r gostyngiad arbedion cytunedig i'r MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon o'r gyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy

**2019-20**
***Newid rhwng Cyllideb Ddrafft 2018-19 a Chynlluniau newydd 2019-20 (Cyllideb ddrafft)***

- Dim newid

DRAFT

Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Health, Social Care and Sport Committee
HSCS(5)-30-17 Papur 2 / Paper 2

**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**
**Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/VG/3695/17

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

27 Hydref 2017

Annwyl Dai,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Hydref ar ran y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ynglŷn ag amseroedd aros canser. Gallaf eich sicrhau bod amseroedd aros canser yn dal i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.

Mae rheidrwydd ar fyrddau iechyd i roi diweddariad misol ar eu perfformiad mewn perthynas â chanser. Cynhelir trafodaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r byrddau iechyd ar y perfformiad hwn yn eu cyfarfodydd Ansawdd a Chyflenwi rheolaidd ac yng nghyfarfodydd y Cyd-dîm Gweithredol. Rwyf hefyd mewn cysylltiad rheolaidd â'r byrddau iechyd unigol ynglŷn â'u cynlluniau gwella a'r cynnydd sy'n cael ei wneud.

Er bod perfformiad mewn perthynas ag achosion brys lle ceir amheuaeth o ganser (USC) yn is na'r targed, hanes o welliant a gafwyd yn gyffredinol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Rwyf wedi cael sicrwydd y bydd y gwelliannau yn gynaliadwy ac y bydd y cynnydd yn parhau.

Mae nifer y cleifion sy'n cael eu trin ar y llwybr gofal USC wedi bod yn cynyddu. O gymharu'r cyfnod o 12 mis o fis Medi - Awst bum mlynedd yn ôl, amlygwyd bod nifer y cleifion sy'n cael eu trin o fewn yr amser targed eleni wedi cynyddu 40% (1,875 o gleifion).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwnaed 95,797 o atgyfeiriadau ar gyfer achosion brys lle ceir amheuaeth o ganser dros y 12 mis diwethaf (Medi 2016 - Awst 2017) sy'n gynnydd o 10% (8,739 o atgyfeiriadau) o'i gymharu â'r 12 mis blaenorol. Er gwaethaf hyn, ym mis Awst 2017, roedd nifer y cleifion a gafodd eu trin o fewn y targed wedi cynyddu 39% (157 o gleifion) o'i gymharu â'r un cyfnod 5 mlynedd yn ôl.

Ym mis Awst 2017 bodlonodd pedwar bwrdd iechyd y targed ar gyfer achosion nad ydynt yn rhai brys lle ceir amheuaeth o ganser (NUSC), a chofnododd y ddau arall berfformiad dros 96%. O ganlyniad, cyrhaeddwyd targed Cymru gyfan am y trydydd tro yn 2017. Mae un bwrdd iechyd yn arbennig yn wynebu heriau i gynnal perfformiad cyson.

Mae amseroedd aros canser yn ddangosydd da o ba mor effeithiol yw llwybrau gofal, ac o gapasiti. Rwyf i mewn cysylltiad uniongyrchol â Phrif Weithredwyr y byrddau iechyd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'm disgwyliadau ar gyfer gwella perfformiad ymhellach.

Mae perfformiad rhwng y naill fwrdd iechyd a'r llall yn dal i amrywio rywfaint. Mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn gweithio'n ddiwyd i fynd i'r afael â hyn, er enghraifft, drwy Rwydwaith Canser Felindre, a thrwy ei raglen o adolygiadau gan gymheiriaid ac ymyriadau uniongyrchol gan Uned Gyflawni'r GIG. Mae perfformiad yn amrywio gan ddibynnu ar ba fan yn y corff y darganfyddir tiwmor. Materion recriwtio a chadw sy'n bennaf gyfrifol am hynny ac mae yna ffactorau ymarferol ar waith hefyd, fel y diffyg a geir mewn rhai meysydd arbenigol ar draws y Deyrnas Unedig gyfan.

Mae crynodeb byr ynghlwm wrth y llythyr hwn sy'n trafod y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd gan bob bwrdd iechyd ac sy'n amlinellu'r gwaith sy'n cael ei wneud a'r cynnydd hyd yma.

Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud eisoes dros y tair blynedd ddiwethaf i ymchwilio i lwybrau gofal canser yn gyffredinol. Erbyn hyn, mae gwaith ar y gweill i ailwampio llwybrau gofal canser ac i helpu i roi diagnosis yn gyflymach, sefydlu clinigau un stop a lleihau nifer y camau gweithredu o fewn y llwybrau gofal eu hunain. Ymhlith y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud i wella canlyniadau i gleifion sydd â chanser mae'r camau a ganlyn:

- Defnyddio technegau delweddu manwl i helpu meddygon i dargedu canser y pen a'r gwddf yn fwy effeithiol mewn treial clinigol gwerth £720,000. Bydd hyn yn gwella'r driniaeth a'r cyfraddau goroesi yng Nghanolfan Ganser Felindre ac yn Ysbyty Singleton yn Abertawe.
- Gall y cleifion hynny sydd â symptomau annelwig weithiau aros yn rhy hir am ddiagnosis oherwydd nad ydynt yn "ffitio'n hawdd" i unrhyw lwybr driniaeth benodol. Gallant gael eu hatgyfeirio i gael cyfres o brofion a sganiau. O ganlyniad, gall rhai cleifion ddechrau eu triniaeth ar gam hwyrach na'r hyn a fyddai'n ddymunol. Bydd cynllun peilot newydd yng Nghwm Cynon yn canolbwyntio ar gleifion y mae eu meddygon teulu yn amau bod ganddynt ganser ond nad ydynt yn dangos unrhyw symptomau amlwg neu rai sydd angen sylw ar frys. Mae hyn yn cynnwys amryw o glinigau "un stop" newydd, lle cynhelir cymaint o brofion neu sganiau ag sydd eu hangen - ar yr un diwrnod yn ddelfrydol - i geisio cael diagnosis pendant.

Er mwyn canolbwyntio ar berfformiad, mae byrddau iechyd yn cymryd rhan mewn chwe archwiliad clinigol cenedlaethol. Mae gan y byrddau hefyd raglen o adolygiadau gan gymheiriaid sy'n cael ei hedmygu'n eang; maent yn cynnal adroddiadau blynyddol drwy'r grŵp gweithredu; ac mae ganddynt amryw o fetrigau eraill o sgrinio i ofal diagnostig i ofal lliniarol.

Rwy'n falch o weld bod gwelliannau'n cael eu gwneud o un flwyddyn i'r nesaf yn y cyfraddau goroesi un flwyddyn a phum mlynedd ar gyfer canser. Cafodd y data diweddaraf eu cyhoeddi ar 28 Medi 2017 ac roedd yn dangos y cyfraddau goroesi uchaf a adroddwyd erioed. Roedd cynnydd o 3.3 pwynt canran yn y gyfradd oroesi un flwyddyn dros gyfnod o bum mlynedd, o 69.4% ar gyfer y bobl a gafodd ddiagnosis yn y cyfnod o 2005 i 2009 i 72.7% ar gyfer y cyfnod diagnosis diweddaraf, o 2010 i 2014. Mae'r gyfradd oroesi bum mlynedd hefyd wedi cynyddu o 3.3 pwynt canran, o 53.8% i 57.1% ar gyfer yr un blynyddoedd diagnosis.

Yn ôl canlyniadau Arolwg Profiad Cleifion Canser Cymru yn 2013 a 2016, gwelwyd bod lefel profiad y claf sydd â chanser o ofal wedi bod yn gyson uchel. Ymatebodd mwy na 6,700 i'r arolwg diweddaraf, a gyhoeddwyd ar 5 Gorffennaf 2017. Dywedodd 93% o'r ymatebwyr (7 neu ragor o bob 10) fod eu profiad hwy o ofal yn un cadarnhaol. Roedd sgorau uchel tebyg ar gyfer dangosyddion yn ymwneud ag urddas, cydgynhyrchu a'r ffordd o roi gofal.

Hyderaf fod y llythyr hwn yn rhoi trosolwg defnyddiol o'r gwaith sydd ar y gweill eisoes i wella pob agwedd ar berfformiad mewn perthynas â chanser. Byddaf yn parhau i ddisgwyl i’r gwasanaeth iechyd wella ei berfformiad ymhellach dros y misoedd sydd i ddod.

Yn gywir

**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport

**Atodiad**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Mae'r bwrdd iechyd wedi ei chael hi'n anodd cynnal perfformiad cyson dros y 12 – 18 mis diwethaf oherwydd cynnydd yn nifer y cleifion sydd ar lwybrau gofal cymhleth, yn ogystal â'r galw cynyddol am brofion diagnostig, a rhai materion yn ymwneud â chapasiti a recriwtio a chadw staff mewn meysydd arbenigol. Fodd bynnag, mae llwybrau gofal wedi cael eu hailwampio'n sylweddol, ac mae'r bwrdd iechyd yn rhagweld y bydd yn bodloni'r targed ar gyfer achosion nad ydynt yn rhai brys lle ceir amheuaeth o ganser (NUSC) ac y bydd ei berfformiad ar gyfer achosion brys lle ceir amheuaeth o ganser (USC) yn 90% dros y misoedd nesaf. Mae'r camau gweithredu sydd ar waith i wella perfformiad yn cynnwys:

- Cyflwyno clinigau sganwyr delweddau atseiniol magnetig (MRI) a biopsi uwchsain trawsrefrol (TRUS) un stop i leihau amseroedd aros ar y llwybr gofal wroleg yn ogystal â sicrhau bod profion biopsi yn fwy cywir ac yn cael eu targedu'n well.
- Sefydlu cynllun peilot dau gam ym maes yr ysgyfaint lle mae cleifion yn cael eu hanfon yn syth o ofal sylfaenol i gael sgan tomograffeg gyfrifiadurol (CT) ac yn syth i gael sgan CT pan geir canlyniad pelydr-x annormal.
- Treialu clinig peilot y pen a'r gwddf un stop ar gyfer lympiau yn y gwddf.
- Cynnig slotiau llawfeddygol penodol erbyn hyn ar gyfer triniaethau i gleifion Gastroberfeddol Isaf er mwyn cynnal profion endosgopi a fydd yn rhoi mynediad cyflymach at sgopiau diagnostig.
- Trefniadau sydd wedi’u sefydlu eisoes i drefnu profion endosgopi drwy gontract allanol er mwyn lleihau amseroedd aros.
- Cynnal mwy o sesiynau llawfeddygol mewn wroleg i fynd i'r afael â rhestrau aros.
- Penodi wrolegydd ymgynghorol arall yn ogystal â nyrs glinigol arbenigol arall yn y maes Gastroberfeddol Uchaf. Maent hefyd yn chwilio am nyrs glinigol arbenigol arall ar gyfer wroleg.
- Treialu clinig un stop ar gyfer achosion o waedu rhefrol.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**

Yn gyffredinol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yw'r un sydd wedi perfformio isaf o'r holl fyrddau iechyd dros y 12 – 18 mis diwethaf. Mae hyn wedi cael effaith uniongyrchol ar sefyllfa Cymru gyfan. Mae'r rhesymau a nodwyd dros hyn yn amrywiol ac maent yn cynnwys, aros am brofion ac adroddiadau diagnostig, materion gweinyddol, capasiti adrannau cleifion allanol, amseroedd aros am apwyntiadau i gleifion allanol, oedi cyn rhoi triniaeth, llwybrau gofal cymhleth, ac achosion o orfod aros am drafodaethau amlddisgyblaethol a llawfeddygol. Un ffactor pwysig i Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yw'r twf sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd, sydd wedi cynyddu 45% dros y 4 blynedd diwethaf.

Mae Uned Gyflawni'r GIG yn gweithio'n uniongyrchol â'r gwasanaeth i nodi meysydd ar gyfer gwella. Mae’r pwyslais ar wella gwasanaethau canser mewn modd sy'n gynaliadwy, yn hytrach na chynnal mentrau tymor byr i wella perfformiad. Mae'r bwrdd iechyd yn awr yn rhagweld y bydd gwelliannau cynyddol parhaus yn cael eu gwneud dros y misoedd nesaf.

Mae'r camau gweithredu i wella perfformiad yn cynnwys:

- Diwygio cynlluniau gweithredu adolygiadau gan gymheiriaid a chamau gweithredu i ddangos camau gwell, sy'n fesuradwy ac yn amserol, ac adrodd yn glir ar y broses o fonitro a pherchenogi'r modd o gyflawni.
- Adolygwyd y trefniadau ar gyfer tracio achosion o ganser ar draws y sefydliad i nodi unigolion a chadw cofnod o'r man yn y corff lle caiff pob tiwmor ei ddarganfod, gyda'r nod o sicrhau bod cyfarfodydd tracio yn fwy cadarn ac effeithiol.
- Bydd llwybr gofal ar gyfer gwaedu ar ôl y menopos yn cael ei rhoi ar waith. Llwybr gofal un stop yw hon a fydd yn gwella'r amseroedd aros rhwng profion diagnostig a nifer yr apwyntiadau sydd eu hangen ar gyfer cleifion allanol, lleihau oedi a gwella perfformiad. Bydd gweithredu dangosfwrdd radioleg yn gwella mynediad adrannau radioleg at wybodaeth fyw, a bydd o gymorth iddynt wella eu perfformiad.
- Penodwyd pedwar radiograffydd i gynyddu capasiti a gwneud y defnydd gorau posibl o ail sganiwr CT. Penodwyd staff cyflenwi graddfa ganol dros dro ym maes hematoleg i ddarparu mwy o gapasiti i glinigau. Mae proses recriwtio ar y gweill ar gyfer 3 ymgynghorydd oncoleg ac mae swyddi eraill wedi cael eu hamlinellu yn y gweithlu.
- Cynhelir mwy o glinigau diagnostig y fron a chytunwyd ar gyllid ar gyfer cyflogi radiolegydd ymgynghorol locwm am 3 mis.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Mae perfformiad NUSC y bwrdd iechyd wedi bod yn gymharol gyson dros 97% ac mae'r targed wedi'i fodloni naw gwaith yn y deuddeng mis diwethaf. Mae ei berfformiad USC wedi codi a gostwng ond, ar y cyfan, mae'n gyson uwch na'r targed o 90% ar gyfer USC. Proffil o welliant parhaus a chyson dros amser sydd gan y bwrdd iechyd, ac yn gyffredinol, dros y ddwy flynedd ddiwethaf, perfformiodd gyda'r gorau yng Nghymru. Mae'r bwrdd iechyd yn rhestru'r rhesymau a ganlyn dros beidio â chyrraedd y targed: llwybrau gofal cymhleth, oedi cyn apwyntiadau cyntaf y colon a'r rhefr, gastroberfeddol a’r glust, y trwyn a’r gwddf (ENT), oedi cyn llawdriniaethau wroleg, materion gweinyddol ac oedi cyn cynnal profion endosgopi.

Mae'r camau gweithredu i wella perfformiad yn cynnwys:

- Creu mwy o gapasiti ar gyfer llawfeddygaeth wroleg
- Gweithio ar y cyd â Lerpwl i ganiatáu i staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gynnal llawdriniaethau robotig ar gleifion y bwrdd iechyd yn Lerpwl.
- Cynnal clinigau wroleg dan arweiniad nyrsys clinigol arbenigol.
- Cynnal mwy o glinigau gastroenteroleg i leihau'r oedi ar gyfer apwyntiadau i gleifion allanol; mae apwyntiadau yn cael eu trefnu i gleifion yn awr i fodloni'r targed.
- Mwy o glinigau'r colon a'r rhefr yn ogystal â mentrau lle anfonir cleifion yn syth i gael prawf.
- Gweithio chwe diwrnod yr wythnos i gynnal profion endosgopi.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

Ers mis Tachwedd 2015, pan fu cwymp sylweddol yn ei berfformiad, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi gwneud gwelliannau graddol. Mae'r bwrdd iechyd wedi ceisio sicrhau bod yr holl welliannau yn rhai hirdymor ac yn gynaliadwy. Dangoswyd gwelliannau parhaus a'r bwrdd iechyd hwn yw'r unig un i gyflawni'r ddau darged ddwywaith yn 2017. O ganlyniad i amryw o faterion a gododd ym mis Awst mae’r bwrdd iechyd yn

rhagweld cwymp bach mewn perfformiad ond bydd yn cynnal ei berfformiad USC, sy'n dros 90%, erbyn diwedd y flwyddyn.

Mae'r camau gweithredu i wella perfformiad yn cynnwys:

- Cynnal y dull gweithredu o sicrhau bod y cleifion hynny sydd wedi bod yn aros hwyaf am driniaeth yn cael eu gweld gyntaf, a chydbwyso'r galw â'r capasiti a gwella llwybrau gofal mewn modd sy'n gynaliadwy ar gyfer y tymor hir.
- Craffu'n fanylach ar bob achos o dorri amodau.
- O dan arweiniad y Cyfarwyddwr Meddygol, gyda chymorth y tîm gwelliant gwasanaeth parhaus, mae prosiect penodol sy'n canolbwyntio ar ailwampio a gwella'r llwybr gofal ar gyfer cleifion Gastroberfeddol Isaf ac Uchaf wedi cael ei roi ar waith.
- Mae prosesau monitro a rheoli wedi cael eu hadolygu a'u safoni; proses adolygu uwchgyfeirio penodedig drwy her ganser fisol a chyfarfodydd cefnogi â byrddau clinigol – wedi'u cadeirio gan y Prif Swyddog Gweithredol.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf**

Mae'r perfformiad wedi amrywio dros y 12 mis diwethaf gyda pherfformiad ar y llwybr gofal 62 diwrnod yn ymestyn o 78.3% ar ei isaf (Hydref 2016) i 91.1% (Mai 2017).

Mae'r bwrdd iechyd yn rhestru'r cynnydd yn y nifer yr atgyfeiriadau a'r galw cynyddol am wasanaethau radiolegol fel y prif feysydd sy'n peri pryder o ran cynnal perfformiad.

Mae'r llwybr gofal ar gyfer cleifion yr amheuir bod ganddynt ganser y prostad wedi cael ei adolygu ac mae'r bwrdd iechyd yn hyderus y bydd cyn lleied â phosibl o symud achosion o oedi ymlaen, ac felly bydd llawer llai o gleifion yn aros mwy na 62 diwrnod am driniaeth.

Mae oedi tebyg wedi digwydd yn achos cleifion yr amheuir bod ganddynt ganser y colon a'r rhefr wrth i'r galw am sganiau CT o'r colon godi'n gyflymach ac yn gyflymach. Mae'r bwrdd iechyd yn gweithio ar hyn o bryd â'r galw am wasanaethau radioleg i greu mwy o gapasiti ar gyfer y gwasanaeth archwilio ac adrodd allweddol hwn. Mae'r bwrdd iechyd yn hyderus y bydd y newidiadau a roddir ar waith yn arwain at welliannau a gynhelir yn y tymor canolig.

Mae'r camau gweithredu i wella perfformiad yn cynnwys:

- Mynd ati o ddifrif i adolygu'r prosesau ar gyfer uwchgyfeirio achosion o oedi ar draws y llwybr gofal USC gyfan i sicrhau bod cleifion yn symud trwy eu llwybrau cyn gynted ag sy'n bosibl.
- Rhoi proses reoli a pholisi uwchgyfeirio diwygiedig a mwy diweddar ar waith, gan gadarnhau camau o'r llwybr gofal ac ailedrych ar rolau a chyfrifoldebau neilltuol aelodau staff allweddol. Bydd hyn yn sicrhau bod achosion o oedi yn cael eu huwchgyfeirio yn gynharach yn ystod y llwybr gofal ac yn arwain at ymyrraeth yn gynharach, ac yn cefnogi hynny, ar bob lefel.
- Mae'r bwrdd iechyd wedi ailystyried y galw am sganiau CT ar gyfer achosion USC ac mae ganddo gynllun i fynd i'r afael â'r diffyg mewn capasiti.
- Ailwampio llwybrau gofal sy'n gysylltiedig â gweithredu'r gwasanaeth diagnosis cynnar.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Dros y 10 mis diwethaf, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi perfformio'n uwch na 90% ar gyfer y llwybr gofal USC.

Mae'r bwrdd iechyd yn disgwyl i'r lefel hon o berfformiad gael ei chynnal. Mae'r camau gweithredu i wella perfformiad yn cynnwys:

- Canolbwyntio ar amseroedd aros am apwyntiadau cyntaf i gleifion allanol.
- Mae trefnu triniaeth i gleifion llawfeddygaeth thorasig drwy gontract allanol o dan brosiect llawfeddygaeth thorasig Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar fin dechrau a disgwylir i hyn gael effaith gadarnhaol drwy leihau amseroedd aros.
- O ran achosion gynaecoleg, Gastroberfeddol Isaf, wroleg a'r pen a'r gwddf, mae'r bwrdd iechyd wrthi'n cynnal trafodaethau â Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg fel y darparwr trydyddol er mwyn gwella gwasanaethau.

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon